

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Y Gyfrol Cofnodion Cyfrol (30)

2025 - 2026



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



**Y GYFROL COFNODION
2025 – 2026**

CYFROL (30)

Y Gyfrol Cofnodion

Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys cofnodion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2025-2026.

	Rhif Tudalen
1. CYFARFODYDD O'R AWDURDOD	
30 Ebrill 2025	7 -12
11 Mehefin 2025 (CCB)	13 - 24
10 Medi 2025	25 – 31
10 Rhagfyr 2025	32 – 41
4 Chwefror 2026	42 - 46
2. PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD	
9 Ebrill 2025	47 – 49
21 Mai 2025	50 - 54
25 Mehefin 2025	55 – 60
3 Medi 2025	61 – 64
15 Hydref 2025	65 – 68
12 Tachwedd 2025	69 – 72
21 Ionawr 2026	73 – 77
25 Chwefror 2026	78 – 80
25 Mawrth 2026	81 - 82
3. PWYLLGOR SAFONAU	
11 Ebrill 2025	83 – 85
19 Medi 2025	86 – 89
27 Mawrth 2026	90 – 92
4. PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU	
9 Gorffennaf 2025	93 – 99
26 Tachwedd 2025	100 – 105
11 Mawrth 2026	106 - 110



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 30 EBRILL 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Jo Nuttall;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Edward Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Rhys Owen, Naomi Jones, Nia Murray, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Rachel Freitag (Archwilio Cymru) a Daniel Price (Archwilio Cymru) (eitem 10 yn unig)

Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Ifor Glyn Lloyd a Nia Owen, a chan Naomi Luhde-Thompson.

2. Diweddariad Corfforaethol

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod y PW a'r Cadeirydd wedi mynychu Cynhadledd Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2025 ym mis Chwefror;
- y cafwyd Diwrnod Datblygu Aelodau ym Mhen y Pass ac ym Metws-y-coed yn ystod mis Mawrth. Trafodwyd materion trafnidiaeth ac elfennau masnachol y Parc;
- y cynhaliwyd sesiwn galw-i-mewn ar Blas Tan y Bwlch ddechrau mis Ebrill;
- bod y PW a'r Cadeirydd yn mynychu Sesiwn Prif Weithredwyr ac Arweinwyr Parciau Cenedlaethol Prydain yn Bakewell, Peak District y prynhawn hwnnw;

- bod y PW a'r Cadeirydd yn bwriadu mynychu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Cydbwyllgor Corfforaethol mewn wythnos;
- bod sesiwn o Fforwm Cymunedau'n cael ei gynnal ar-lein mewn wythnos i hysbysu'r cynghorau cymuned lleol fod yr Awdurdod yn dechrau'r broses o adolygu ei ddau gynllun strategol, sef y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Eryri, eleni;
- bod cynrychiolwyr o Barc Cenedlaethol Triglav, Slofenia yn ymweld ag Eryri ym mis Mai;
- y mynychodd y PW a rhai Aelodau Iansiad peiriant twnelu'r *National Grid* a oedd yn mynd i dyllu o dan yr Aber.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb mewn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro. Dywedodd fod cyfweiliadau ar gyfer y swydd o Gyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau yn cael eu cynnal y prynhawn hwnnw, a'i fod yn fwriad cyhoeddi manylion am yr ail swydd Gyfarwyddwr yn fuan.

Argymhellwyd: y dylai'r Daflen Weithredu aros fel y'i cyflwynwyd

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. **Adroddiad y Panel Cyfweld ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.

Adroddwyd:

- bod angen penodi Aelod Annibynnol ychwanegol i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn ymddeoliad Mrs Sharon Warnes;
- bod panel cyfweld o bump, gan gynnwys un aelod lleig yn unol â'r rheolau, wedi ei sefydlu, gyda thri yn bresennol ar y diwrnod ar gyfer cyfweiliadau, sef Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Mr Iwan Jones a Mr Aled Williams (yr aelod lleig);
- bod tri ymgeisydd i gael eu cyfweld ar gyfer y swydd ond bod un wedi tynnu nôl o'r broses gan ei fod wedi cael cyflogaeth newydd ac nad oedd bellach

yn lleol i'r ardal;

- bod y Panel, ar ôl cyfweld â'r ddau ymgeisydd oedd yn weddill, yn argymhell bod yr Awdurdod yn penodi Mr Robert Gwilym Lewis, a'u bod o'r farn ei fod yn bodloni gofynion y swydd ac y byddai ei gefndir o fudd i waith y Pwyllgor Safonau.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn penodi Mr Robert Gwilym Lewis i fod yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am dymor o bum mlynedd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad

9. **Ethol 2 Aelod newydd i'r Is-grŵp Asedau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo.

Adroddwyd:

- bod 2 sedd wag ar yr Is-grŵp Asedau yn dilyn ymadawiad y Cynghorwyr June Jones a Dilwyn Roberts fel Aelodau, a bod angen eu llenwi er mwyn i'r is-grŵp allu ymgynnull.

Cynigiwyd: – y Cynghorydd Einir Wyn Williams, Mr Rhys Evans a Mr Wyn Thomas, ond tynnodd Mr Rhys Evans ei enw yn ôl rhag cael ei enwebu.

Penderfynwyd: — **ethol** y Cynghorydd Einir Wyn Williams a Mr Wyn Thomas i'r Is-grŵp Asedau.

10. **Adroddiad ISA260**

Cyflwynwyd adroddiad archwilio ISA260 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 gan Rachel Freitag, Archwilio Cymru.

Adroddwyd:

- bod yr Archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon yr Awdurdod, a diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid ac i'r tîm cyllid am eu gwaith a'u cydweithrediad;
- bod oedi sylweddol wedi bod i adroddiad 21-22 oherwydd problem ail-brisio asedau a bod hyn wedi golygu gohirio dechrau archwiliad 22-23, ond bod archwiliad 22-23 wedi'i ardystio o fewn blwyddyn i'r un blaenorol;
- bod prinder staff yn ystod 22-23 wedi cyfrannu at oedi mewn ateb ymholiadau, ond bod nifer yr aelodau staff wedi cynyddu oddi ar hynny;
- bod angen nifer o gywiriadau i'r cyfrifon, a bod angen nifer o fân-welliannau hefyd i wella ansawdd y cyfrifon yn gyffredinol;
- bod y gwaith ychwanegol i fynd trwy'r cywiriadau ayyb wedi golygu codi ffi ychwanegol;
- byddai llythyr a oedd yn cynnig argymhellion yn dilyn yr archwiliad presennol yn cael ei anfon at yr Awdurdod yn y dyfodol agos.

Nodwyd:

- y cywiriadau a'r symiau a oedd wedi'u rhestru yn yr adroddiad, ond nodwyd hefyd:
 - bod dull newydd o archwilio wedi ei gyflwyno yn 22-23 a bod hyn wedi arwain at weld mwy o gywiriadau angenrheidiol yn gyffredinol ledled Cymru;

- bod pob corff yn gweld rhywbeth yn y rhestr o gywiriadau a wnaed mewn archwiliad;
- mai yn y Nodiadau oedd y mwyafrif o'r cywiriadau ac nid yn y Fantolen, neu'r incwm a gwariant, ei hun;
- bod cyfnod o ansefydlogrwydd wedi bod, gyda swyddi gwag yn y tîm cyllid, a bod hyn wedi achosi diffyg yn yr ochr Sicrwydd Ansawdd wrth baratoi'r cyfrifon, ond bod nifer y tîm wedi cynyddu bellach;
- dylid edrych i weld a fyddai'n fuddiol cael person allanol i wirio'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'r Archwilwyr;
- bod y cywiriadau bellach wedi eu gwneud a'u bod yn awr mewn lle ar gyfer archwiliadau'r dyfodol.

Argymhellwyd: – derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru

Penderfynwyd: — **cymeradwyo'r** argymhelliad.

11. **Datganiad Cyfrifon 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- bod cyfrifon drafft 2022-23 wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod fis Medi diwethaf ac, yn dilyn derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" gan yr Awdurdod, dylai'r Awdurdod gymeradwyo'r cyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i arwyddo'r Llythyr Sylwadau.

Argymhellwyd: –

- (i) Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad yr Awdurdod ar gyfer 2022/23;
- (ii) Awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

12. **Calendr o Gyfarfodydd 2025/26**

Cyflwynwyd amserlen o gyfarfodydd am y cyfnod 2025-26.

13. **Strategaeth Coed a Choetiroedd**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Adroddwyd:

- bod y strategaeth wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod ar fwy nag un achlysur cyn hyn, ac mai hon oedd y fersiwn derfynol.

Nodwyd:

- y gwaith oedd wedi ei gyflawni i greu'r ddogfen, a llongyfarchwyd pawb a gyfrannodd at ei chreu;

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r Strategaeth Coed a Choetiroedd, gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol

Penderfynwyd: — cymeradwyo'r Strategaeth.

14. **Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru 2025**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- bod Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru 2025 yn cael ei gynnal yn Eryri ar y 1af a'r 2il o Hydref eleni;
- y byddai rhaglen fwy manwl yn cael ei chyhoeddi yn y man, ond mai'r bwriad oedd ystyried yr Economi Ymweld ac Adferiad Natur.

15. **Plas Tan y Bwlch – Diweddariad ac Opsiynau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- ei fod wedi adolygu sefyllfa Plas Tan y Bwlch o'r Newydd dros y misoedd diwethaf, a'i fod am i'r Awdurdod ystyried yr opsiwn o gadw'r Plas at ddefnydd yr Awdurdod, yn ddarostyngedig i allu sicrhau cyllid grant o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol;
- y byddai'n golygu symud swyddfa barhaol yr Awdurdod i Blas Tan y Bwlch a chael gwared â'r pencadlys presennol ym Mhenrhyndeudraeth;
- y rhagwelir y byddai'r Plas yn safle defnydd cymysg;
- y gallai fod yn esiampl o sut y gall yr Awdurdod gyfrannu'n uniongyrchol at ddau bwrpas statudol yr Awdurdod, gan
 - roi cyfle i warchod a gwella tirwedd, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal a
 - meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol;
- sefyllfa ariannol ddifrifol yr oedd yr Awdurdod yn ei hwynebu;
- bod yr Awdurdod wedi cyflwyno amlinelliad bras o'r prosiect i'r Loteri (Cam Mynegi Diddordeb), a'i fod wedi'i gymeradwyo gan y Loteri;
- bod yn rhaid rheoli disgwyliadau – roedd yr opsiwn yn gwbl ddibynnol ar fod yn llwyddiannus gyda grant uchelgeisiol iawn o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Pe na bai'r cais am grant yn cael ei gymeradwyo yn unrhyw ran o'r broses, byddai'n rhaid i'r Awdurdod werthu'r adeilad a'r gerddi (gan gadw rheolaeth ar y coetiroedd a Llyn Mair).

Nodwyd:

- y risgiau oedd ynghlwm â'r opsiwn a'r angenrheidrwydd o reoli disgwyliadau;
- cefnogaeth frwd i'r egwyddor.

Argymhellwyd bod yr Aelodau'n cymeradwyo bod:—

- (i) Swyddogion yn ceisio cadw Plas Tan y Bwlch yn ddarostyngedig i sicrhau grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda golwg ar adleoli swyddfeydd o Benrhyndeudraeth i'r Plas, gan gynnwys cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar gyfer yr eiddo;
- (ii) Bod Swyddogion yn dilyn y trywydd hwn ymhellach trwy wneud cais Grant Loteri Genedlaethol yr haf hwn;

- (iii) Bod Swyddogion yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli disgwyliadau drwy gydol y broses hon, gan nodi y byddai'r Plas yn mynd yn ôl i fod ar werth pe bai'r cais am grant yn methu; a
- (iv) Pe bai'r dull ariannu grant yn aflwyddiannus, y dylai'r Awdurdod gadw rheolaeth ar y coetiroedd a Llyn Mair yn unol â'r cynllun yn Atodiad A, pa bynnag benderfyniad a wneir ar Blas Tan y Bwlch;
- (v) Bod Swyddogion yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn agos drwy gydol y broses hon, gan gynnwys cyflwyno mesurau i leihau'r diffyg presennol yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon;
- (vi) Bod yr Awdurdod yn ystyried y mater hwn ymhellach ac unrhyw gynnydd a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.

Penderfynwyd: — mabwysiadu'r argymhelliad.

16. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd nodi'r cofnodion.

17. **Adroddiadau'r Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiadau ar gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 22 Ionawr, 5 Mawrth a 19 Mawrth 2025.

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau.

18. **Adroddiad Cyd Weithgor Lleol**

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Cyd Weithgor a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2025.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad.

19. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Adroddwyd:

- y bu i'r Cynghorydd Meryl Roberts fynychu cyfarfod oedd yn trafod y ddarpariaeth a gynigir i deithwyr yn gynnar yn y bore ac ar ddiwedd dydd gan Reilffordd Cambrian gyda Thrafnidiaeth Cymru;
- y bu Mr Tim Jones ar Fforwm Mynediad y Gogledd yn trafod sut y gellid lleihau'r nifer o bobl sy'n dringo Crib Goch yn anfwriadol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30



COFNODION
CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 11 MEHEFIN 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Rhys Owen, Angela Jones, Bethan Hughes, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Nia Murray (Rhan 2 yn unig), Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Martin James Hughes (Aelod Annibynnol)

Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar yr Awdurdod. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Edgar Wyn Owen.

*Etholwyd **Edgar Wyn Owen** yn Gadeirydd yr Awdurdod.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-gadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar yr Awdurdod.

Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Ifor Glyn Lloyd.

Etholwyd Ifor Glyn Lloyd yn Is-gadeirydd ar yr Awdurdod.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Ymddiheurodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai eitemau 21 a 22 ar y rhaglen yn cael eu cyflwyno ar ôl eitem 9 er mwyn galluogi'r Prif Weithredwr eu cyflwyno cyn gadael;

Croesawodd y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd i'r cyfarfod ar ôl llawdriniaeth ddiweddar;

Hysbysodd yr Aelodau o farwolaeth Mrs Sharon Warnes a fu'n gadeirydd ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod tan yn ddiweddar. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi anfon carden gydymdeimlad at deulu Mrs Warnes. Soniwyd hefyd am farwolaeth cyn-aelod o staff y Parc, Keith O'Brien, a nodwyd ei fod yn golled fawr i'r ardal. Cafwyd cyfnod o dawelwch i'w hanrhydeddu.

Nododd mai hwn fyddai cyfarfod yr Awdurdod olaf Mr Brian Angell. Diolchodd iddo am ei gyfraniad enfawr a'i sylwadau gwerthfawr dros yr wyth mlynedd yr oedd wedi bod yn Aelod: fe fyddai'r Awdurdod yn gweld ei eisiau.

Diolchodd hefyd i Mr Martin J Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, a oedd yn ymddeol o'r Pwyllgor wedi naw mlynedd, am ei gyfraniad yntau i'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi bod yng nghyfarfod *UK National Parks* yn y *Peak District* bythefnos yn flaenorol.

4. **Diweddariad Corfforaethol**

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- llongyfarchiadau'r PW i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd;
- cafwyd ymweliad gan swyddogion o Barc Cenedlaethol Triglav, Slofenia bythefnos ynghynt. Cawsant weld y Parc, ac roedd yr ymweliad o fudd i'r ddau barc;
- bod y gwaith ar Blas Tan y Bwlch yn symud ymlaen yn gadarnhaol:
 - bod nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda rhan-ddeiliaid a phartneriaid, a bod yr adborth yn gadarnhaol iawn;
 - bod yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflwyno'r Cais Cyfnod Datblygu wedi bod yn rhy uchelgeisiol, bod ymgynghorwyr allanol yn cael eu comisiynu i gynorthwyo gyda pharatoi'r cais, ac mai'r bwriad bellach oedd cyflwyno'r cais erbyn Chwefror 2026;
 - byddai'r PW yn cyflwyno adroddiad diweddarar ar Blas Tan y Bwlch i'r Aelodau yng nghyfarfod mis Medi;
- mai Beca Fflur Williams o Aberystwyth oedd wedi ennill Ysgoloriaeth Geraint George, sef ysgoloriaeth a oedd wedi ei sefydlu ar y cyd gan y Parc, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Urdd, er cof am Geraint George, i hybu a gwobrwyo cyfathrebwyr gwych y dyfodol yn y maes Amgylcheddol. Diolchodd i'r Is-gadeirydd, Ifor Glyn Lloyd, am gyflwyno'r wobwr iddi yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam. Fe fyddai Beca'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Triglav fel rhan o'i gwobr;

- byddai'n mynychu Sioe Ffermio'r Ucheldir a oedd yn cael ei chynnal yn Hafod y Llan y diwrnod canlynol;
- bu newid staff lefel cyfarwyddwyr yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Los Alerces yn ddiweddar a bod hwn wedi gorfodi oediad yn arwyddo'r cytundeb gefeillio, ond bod trafodaethau'n parhau ynghylch ail-drefnu'r arwyddo;
- diolchgarwch y PW i Brian Angell am ei gyfraniad a'i ymroddiad arbennig ar hyd ei flynyddoedd gyda'r Parc;
- bod Aelod newydd, sef Dr Salamat Fada o Brifysgol Bangor, yn dechrau gyda'r Awdurdod ym mis Gorffennaf;
- oherwydd bod nifer o Aelodau wedi dechrau gyda'r Awdurdod yn ddiweddar, ei fod yn bwriadu trefnu sesiwn anwytho i'r Aelodau hynny;
- ei fod wedi mynychu angladd y diweddar Keith O'Brien, a fu'n aelod o staff yr Awdurdod am nifer o flynyddoedd cyn ei ymddeoliad.

5. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

6. **Datgan Diddordeb**

Datganodd y Cyngorydd Nia Owen ddiddordeb oedd yn rhagfarnu yn eitemau 27 a 29, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitemau yna.

7. **Aelodaeth o'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar aelodaeth gyfredol o'r Awdurdod, er gwybodaeth, a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau bod eu manylion yn gywir.

Nodwyd nad oedd yr Aelodau'n gyfforddus iawn i gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar wefan yr Awdurdod, a chytunwyd i dynnu'r manylion o'r wefan.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

8. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

9. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

Newidiwyd y drefn yn y rhaglen a gyhoeddwyd yma fel bod y PW yn gallu gadael.

(21). **Cynnig i ymestyn yr Amcanion Llesiant presennol i fis Ebrill 2027**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- mai'r bwriad oedd clymu'r Amcanion Llesiant â Chynllun Eryri;
- byddai oedi'r Amcanion yn caniatáu i'r Cyfarwyddwyr newydd gymryd perchnogaeth o'r Amcanion Llesiant.

Argymhellwyd: –

- (i) Ymestyn yr Amcanion Llesiant presennol ar gyfer 2021-2026 am 12 mis hyd at fis Ebrill 2027;
- (ii) Dechrau adolygu'r Amcanion Llesiant unwaith y bydd Cynllun Eryri wedi'i fabwysiadu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn 2026, gyda'r bwriad o'u mabwysiadu ym mis Ebrill 2027;
- (iii) Amserlen a methodoleg fanylach ar gyfer paratoi'r Amcanion Llesiant i'w cyflwyno i'r Aelodau ddechrau 2026.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

(22). **Cynhadledd EUOPARC 2025**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- bod y gynhadledd yn cael ei chynnal yn Lithwania eleni;
- mai teitl y Gynhadledd fyddai, "Natur i bobl, Pobl i Natur".

Argymhellwyd: –

- (i) i'r Aelodau benderfynu a ddylai APCE gael ei gynrychioli yng Nghynhadledd EUOPARC 2025;
- (ii) yn amodol ar yr uchod, i'r Aelodau ddirprwyo'r penderfyniad ar y gynrychiolaeth i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr;

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

10. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.

Adroddwyd:

- dylid aros hyd nes y byddai'r Awdurdod wedi penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir, a fyddai'n dod â rhif aelodau'r Tîm Rheoli i 4, sef y cynllun gwreiddiol.

Argymhellwyd: y dylai'r Daflen Weithredu aros fel y'i cyflwynwyd

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.*

11. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn datgan bod yn rhaid penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol

*Penderfynwyd: — **penodi** Aelodau fel a ganlyn:*

1. **PWYLLGORAU**

1.1 **Pwyllgor Cynllunio a Mynediad** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

1.2 **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (3 chyfarfod y flwyddyn)

1.3 **Pwyllgor Safonau** — 3 Aelod o'r Awdurdod – am gyfnod o 4 blynedd (2 gyfarfod y flwyddyn)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Elfed Powell Roberts (hyd at 14/06/26)
- (2) Cyng. Nia Owen (hyd at 12/11/28)

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Ms Naomi Luhde-Thompson (hyd at 12/11/28)

3 Aelod Annibynnol:

- (1) Mr Martin James Hughes (hyd at 05/07/25)
- (2) Mr Mark Jones (hyd at 25/04/28)
- (3) Mr Robert Gwilym Evans (hyd at 29/04/29)

2. **PANELI**

2.1 **Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl** — 3 Aelod + 2 Aelod Wrth Gefn (cwrdd fel bo'r angen)

Dylid dethol yr Aelodau a'r Aelodau wrth gefn o'r Pwyllgor Safonau, a chael eu dewis gan y Pwyllgor hwnnw

2.2 **Paneli Ymweld**

Gogledd

- (1) Cyng. Edgar Wyn Owen
- (2) Cyng. Einir Wyn Williams
- (3) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (4) Cyng. Jo Nuttall
- (5) Cyng. Nia Owen
- (6) Mr Rhys Evans
- (7) Mr Brian Angell (yna Dr Salamatu Fada)
- (8) Ms Naomi Luhde-Thompson
- (9) Mr Wyn Thomas

De

- (1) Cyng. Elwyn Edwards
- (2) Cyng. Delyth Lloyd Griffiths
- (3) Cyng. Annwen Hughes
- (4) Cyng. Louise Hughes
- (5) Cyng. Elfed Powell Roberts
- (6) Cyng. John Pughe Roberts
- (7) Cyng. Meryl Roberts
- (8) Mr Tim Jones
- (9) Ms Delyth Lloyd

3. **GWEITHGORAU**

3.1 **Gweithgor Aelodau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

3.2 **Cyd Weithgor Lleol** — 4 Aelod (2 Gyfarfod y flwyddyn)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (2) Cyng. Elwyn Edwards
- (3) Cyng. Einir Wyn Williams

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Ms Naomi Luhde-Thompson

4 Cynrychiolydd o'r Undebau Llafur wedi'u dyrannu yn ôl Cyfansoddiad y Gweithgor

3.3 Bwrdd Rheoli Yr Ysgwrn — 3 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Elfed Powell Roberts
- (2) Cyng. Elwyn Edwards

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Ms Naomi Luhde-Thompson

3.4 Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch — 3 Aelod o'r Awdurdod (Cwrdd fel bo'r angen)

- (1) Cyng. Meryl Roberts
- (2) Mr Tim Jones
- (3) Cyng. Elfed Powell Roberts

4. PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD

4.1 Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn — 4 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Elwyn Edwards
- (2) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (3) Cyng. John Pughe Roberts

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Mr Brian Angell (yna Mr Rhys Evans)

4.2 Fforwm Eryri — 5 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

Cadeirydd

Is-gadeirydd

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Annwen Hughes
- (2) Cyng. Meryl Roberts

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Mr Brian Angell (yna Ms Delyth Lloyd)

4.3 Fforymau Mynediad Lleol — 2 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y De:

- (1) Cyng. John Pughe Roberts

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y Gogledd:

- (1) Mr Tim Jones

4.4 Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (CBC) — 1 Aelod o'r Awdurdod

Un aelod i'w ddewis o:

- (i) Gadeirydd yr Awdurdod
- (ii) Is-gadeirydd yr Awdurdod
- (iii) Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
- (1) Cadeirydd yr Awdurdod

4.5 Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd (CJC) — Cadeirydd yr Awdurdod

Mae'r Cadeirydd wedi ei gyfethol i'r is-bwyllgorau isod:

- (i) Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant
- (ii) Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

5. GRWPIAU TASG A GORFFEN A GRWPIAU LLYWIO

5.1 Is-grŵp Asedau — 6 Aelod o'r Awdurdod

- (1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (2) Cyng. Meryl Roberts
- (3) Cyng. Einir Wyn Williams
- (4) Mr Brian Angell (yna Cyng. Nia Owen)
- (5) Mr Tim Jones
- (6) Mr Wyn Thomas

5.2 Grŵp Llywio Cyfrif Carbon a Newid Hinsawdd — 5 Aelod o'r Awdurdod

- (1) Cyng. John Pughe Roberts
- (2) Mr Brian Angell (yna Cyng. Einir Wyn Williams)
- (3) Mr Tim Jones
- (4) Ms Naomi Luhde-Thompson
- (5) Dr Salamatu Fada

5.3 Grŵp Llywio Enwau Lleodedd — 3 Aelod o'r Awdurdod

- (1) Cyng. Elwyn Edwards
- (2) Ms Delyth Lloyd
- (3) Cyng. Nia Owen

6. CYRFF ERAILL

6.1 Grŵp Budd-ddeiliad Safle Trawsfynydd (1 Aelod) – Cyng. Elfed Powell Roberts

6.2 Cyd Gyngor Cymru (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.3 Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol – Cytunwyd bod 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn cael eu cynrychioli gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru

6.4 Y Gynghair dros Dirweddau Dynodedig Cymru (1 Aelod) – Mr Tim Jones

6.5 Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.6 AGA Pen Llŷn a'r Sarnau (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

- 6.7 **Grŵp Darparu Trafnidiaeth, Parcio a Theithio Llesol Eryri** (1 Aelod) – Cyng. Einir Wyn Williams
- 6.8 **Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni** (1 Aelod) – Cyng. Elfed Powell Roberts
- 6.9 **Partneriaeth Biosffer Dyfi** (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes
- 6.10 **Cynhadledd Gyswilt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** (1 Aelod) – Cyng. Meryl Roberts
(Cyng. Delyth Lloyd Griffiths wrth gefn)

12. **Presenoldeb Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.

Adroddwyd:

- bod y cofnod o bresenoldeb y Cynghorydd Edgar Wyn Owen yng nghyfarfodydd yr Awdurdod yn anghywir, a'i fod mewn gwirionedd wedi mynychu 6 cyfarfod o'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ac nid 4 fel roedd y rhaglen yn dweud (presenoldeb cyfartalog o 100%).
- Presenoldeb ganrif yr Aelodau ar gyfer y flwyddyn felly oedd 90% yn hytrach nag 88%, a'r cyfanswm ar gyfer yr holl gyfarfodydd oedd 85% (nid 84%).

Penderfynwyd: — derbyn y cywiriadau a **nodi'r** adroddiad, er gwybodaeth.

13. **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd:

- ar weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn;

Diolchodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro i Mr Martin Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau am ei adroddiad a hefyd, ac yntau ar fin ymddeol o'r swydd, am ei waith fel Cadeirydd ac aelod o'r Pwyllgor dros y naw mlynedd flaenorol.

Argymhellwyd: – trafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

14. **Gefeillio Parc Cenedlaethol Los Alerces, Talaith Chubut, a Pharc Cenedlaethol Eryri: Arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth / Cytundeb Gefeillio'n Ffurfiol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.

Adroddwyd:

- bod arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth / Cytundeb Gefeillio wedi ei ohirio oherwydd newid staff ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces;
- bod hyn yn golygu fod yn rhaid newid yr argymelliadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Argymhellwyd felly bod yr Aelodau'n cytuno: —

- (i) ar gynnwys y MoDd/Cytundeb Gefeillio yn ffurfiol;
- (ii) i'r Cadeirydd arwyddo'r MoDd/Cytundeb Gefeillio;
- (iii) i swyddogion barhau i drefnu achlysur yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam i ddathlu'r gefeillio, os yn ymarferol;

- (iv) i swyddogion barhau â thrafodaethau i sefydlu opsiynau cydweithio rhwng y ddau Barc Cenedlaethol.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

15. **Ethol Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i Banel Ymgynghorol Ffermio Bro**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Adroddwyd:

- y disgwyliad i'r Panel gyfarfod 2-3 gwaith y flwyddyn i graffu ar brosiectau dros £10,000;
- byddai ceisiadau'n cael eu sgorio gan swyddogion cyn eu cyflwyno i'r Panel;
- bod cyfarwyddyd wedi'i dderbyn i gynnwys amaethwyr ar y Panel.

Argymhellwyd: — Nodi'r cynnwys ac ethol cynrychiolydd a dirprwy ar y panel

*Penderfynwyd: — **ethol** Mr Brian Angell (ac yna Dr Salamat Fada i'w olynu yn dilyn ei ymddeoliad) yn gynrychiolydd ar y panel, a Mr Tim Jones yn ddirprwy.*

16. **Mabwysiadu Cynllun Yr Wyddfa 2025 yn swyddogol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Partneriaethau

Adroddwyd:

- bod copi drafft o'r Cynllun wedi ei rannu ar-lein;
- bod copi drafft wedi ei rannu gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid mewn gweithdai a sesiynau galw-i-mewn
- mai'r bwriad oedd lansio'r Cynllun newydd ym mis Gorffennaf.

Argymhellwyd: — bod yr Awdurdod yn mabwysiadu *Cynllun Yr Wyddfa 2025* yn swyddogol

*Penderfynwyd: — **mabwysiadu** Cynllun yr Wyddfa 2025.*

17. **Safonau'r Iaith Gymraeg**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddwyd:

- ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt o dan yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg;
- bod tair rhan i'r adroddiad, sef
 - Crynodeb Gweithredol, a oedd yn crynhoi'r prif faterion o bwys mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a godwyd yn ystod y flwyddyn;
 - Crynodeb byr o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn y 176 o safonau a osodwyd ar yr Awdurdod;
 - Atodiad, a oedd yn rhoi data ar staff yr Awdurdod a'u gallu i siarad Cymraeg.

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd*:

- nad oedd modiwlau “Llysgennad Eryri” yn dod o dan y pennawd, “Cyrsiau Addysg” (Safonau 84-86) am eu bod yn fodiwlau a oedd yn cael eu cynnig ar-lein (yn ddwyieithog) lle'r oedd yr unigolyn yn ymgymryd â'r cwrs ei hunan, a bod y safonau yn ymwneud yn fwy ag iaith y tiwtor a oedd yn arwain cwrs;
- deuai cwynion a dderbynnid gan yr Awdurdod ar faterion iaith i sylw'r Aelodau trwy adroddiad blynyddol a gyflwynid i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, ac yna i'r Pwyllgor Safonau; câi unrhyw faterion eraill ynglŷn â hyrwyddo'r iaith eu hadrodd yn Rhaglen Waith Corfforaethol yr Awdurdod;
- nad oedd geiriad pwynt 2.8 (ymateb i gynnig cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4) yn eglur a byddai'n cael ei wella.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

18. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddwyd:

- bod y datganiad yn darparu crynodeb o holl faterion llywodraethiant o bwys a ddigwyddodd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
- byddai'r datganiad yn ffurfio rhan o gyfrifon terfynol yr Awdurdod am 2024-25;
- byddai'r ffigyrau a oedd yn y datganiad ar bresenoldeb aelodau yn cael eu diweddarau, yn dilyn y cywirdeb a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn eitem 12, gynt.

Trafodwyd y datganiad a *nodwyd*:

- byddai'n briodol ychwanegu gwybodaeth ar gydymffurfiaid yr Awdurdod â Safonau'r iaith at yr adroddiad yma;
- dylai Aelodau adrodd yn ôl a chynnig adborth ar y gefnogaeth a roddid i Aelodau i gyflawni eu rôl;
- nad oedd Aelodau oedd wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru yn cael nemor ddim cefnogaeth nac arweiniad, er bod hyn wedi ei godi fwy nag unwaith gyda'r Gweinidog perthnasol;
- dylid ychwanegu gwybodaeth am y sesiynau galw-i-mewn a gynhaliwyd ynglŷn â'r Plas at yr eitem ar Ymgynghori Uniongyrchol;
- bod Adroddiad Archwiliad Cymru yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut mae aelodau awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau a'u bod yn argymhell bod APCau yn gweithio gyda CLILC a Llywodraeth Cymru i adolygu'r protocol. Nodwyd hefyd fod y rhain yn faterion oedd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Fodd bynnag fe ofynnwyd a fu unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â hyn, a chynigiwyd y dylai'r Prif Weithredwr ddiweddarau'r Aelodau'n ffurfiol ar y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25, yn amodol ar ddiweddarau rhifau presenoldeb yr Aelodau, ychwanegu pennawd ar gydymffurfiaid yr Awdurdod â Safonau'r iaith, ac ychwanegu gwybodaeth am yr ymgynghoriad a gafwyd yn y sesiynau galw-i-mewn a gynhaliwyd ynglŷn â'r Plas.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

19. **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn nodi cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

20. **Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Bartneriaeth Gymdeithasol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro

Adroddwyd:

- cefndir y ddyletswydd a'r gofynion statudol;
- bod dyletswydd gan yr Awdurdod geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod amcanion lles ac i adrodd yn flynyddol i ddangos sut y mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd;
- nad oedd yr Awdurdod wedi adolygu ei Amcanion Llesiant yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, ei fod yn fwriad dechrau'r broses o adolygu'r Amcanion Llesiant ddechrau'r flwyddyn ariannol 2026-27, ac y byddai ymgynghoriad ffurfiol â chynrychiolwyr undebau llafur yn cael eu cynnal bryd hynny.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cytuno'n ffurfiol ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol fel y gellid ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

23. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd: — **nodi'r** cofnodion.

24. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

25. **Adroddiad y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2025.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

26. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Adroddwyd:

- bod Mr Tim Jones wedi mynychu cyfarfod Fforwm Mynediad y Gogledd, lle trafodwyd:
 - trafferthion a gaiff rhai pobl wrth ddringo'r Wyddfa a'r hyn a ellid ei wneud yn ei gylch,

- y bwriad i greu llwybr newydd at yr Wyddfa a fyddai'n osgoi Victoria Terrace, Llanberis ac felly'n torri ar y niferoedd sy'n cerdded ar hyd y teras ddydd a nos gan amharu ar y trigolion.

27. **Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir – Pecyn Rhestr Fer Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau**

Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro mai'r eithriadau perthnasol i'r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- Berthnasol i unigolyn penodol
- Debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn
- Ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol

Nododd nad oedd ffactorau o blaid datgelu.

Penderfynwyd: — bod yr Awdurdod yn **eithrio'r** adroddiad, "Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir – Pecyn Rhestr Fer".

RHAN 2

28. **Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir – Pecyn Rhestr Fer**

Cyflwynwyd pecyn gyda ffurflenni cais gwahanol ymgeiswyr ar gyfer y swydd o Gyfarwyddwr Rheoli Tir.

Trafodwyd y ceisiadau.

Penderfynwyd: — gwahodd pedwar o'r ymgeiswyr i'w cyfweld.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 10 MEDI 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweeney, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Elliw Owen, Bethan Hughes, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams, Jo Nuttall, a Naomi Luhde-Thompson.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod, dros fisoedd yr haf, wedi:

- ymweld â'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd;
- ymweld â Sioe Meirionnydd yn Nhywyn;
- ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, lle bu bwriad i arwyddo cytundeb gefeillio gyda Pharc Cenedlaethol Los Alceres, ond na lwyddwyd i wneud hynny, a byddai'n rhaid ail-drefnu dyddiad ar gyfer arwyddo;
- mynychu cyfarfod o Gronfa Cymuned Eryri (cronfa gwerth £100,000 gan Lywodraeth Cymru), er mwyn penderfynu pa gymdeithasau a phrosiectau o fewn y Parc a fyddai'n derbyn grantiau;

Dywedodd ei fod wedi derbyn cais gan rai aelodau o'r staff a swyddogion i atgoffa Aelodau i ymateb i e-byst y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, yn enwedig wrth geisio trefnu digwyddiadau a oedd yn gofyn am ffigyrau ar gyfer lluniaeth neu wasanaethau cyfieithu.

2. Diweddariad Corfforaethol

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Croesawyd

- Salamatu Fada i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod,

- y Tîm Arweinyddiaeth cyflawn i gyfarfod o'r Awdurdod am y tro cyntaf.

Adroddwyd:

- bod y trefniadau ar gyfer *Seminar Aelodau Cymru* oedd i'w gynnal ar Hydref 1-2 wedi'u cwblhau, a bod y cadwraethwr ac awdur, Carwyn Graves wedi ei wahodd i siarad ar ddiwedd y noson gyntaf;
- bod panel *Ffermio Bro* wedi cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Awst, bod gwerth £300,000 o grantiau wedi ei ddarparu ar gyfer cynlluniau amaeth amgylcheddol, bod nifer o'r cynlluniau yn arloesol a chyffrous, a bod panel arall wedi ei drefnu ar gyfer diwedd mis Medi;
- bod Staff yr Awdurdod wrthi'n trefnu ar gyfer dathlu 75 mlynedd er sefydlu'r Parc, ym mis Hydref 2026, a byddai adroddiad yn dod gerbron y Gweithgor Aelodau ym mis Hydref i drafod y paratoadau;
- bod yr Awdurdod wedi derbyn grant Llywodraeth Cymru, *Tiroedd Cynaliadwy a Lleoedd Cynaliadwy*, a bod gwerth £100,000 wedi ei ddarparu i brosiectau lleol;
- bod Llywodraeth Cymru wedi annog yr Awdurdod i gyflwyno bid am arian tanwariant o fewn y flwyddyn, a bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi paratoi pecyn o brosiectau i'w gyflwyno i'r Llywodraeth;
- byddai Sesiwn Anwytho i Aelodau newydd o'r Awdurdod yn cael ei gynnal ar ôl y cyfarfod;
- bod Sesiwn Anwytho Aelodau Newydd y Parciau Prydeinig yn cael ei gynnal yn Northumberland ym mis Tachwedd, bod dau Aelod o'r Awdurdod yn mynychu ond bod posibilrwydd y byddai lle i ragor;
- bod y Tîm Arweinyddiaeth yn cyfarfod â Thimau Arweinyddiaeth Parciau Penfro a'r Bannau yn Sir Benfro'r wythnos honno;
- byddai'r PW yn cwrdd â Dirprwy Gyfarwyddwr yr adran Lywodraeth oedd yn gyfrifol am y Parciau'r un adeg.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd bod:

- Eitem 16 o Gyfarfod yr Awdurdod 8 Chwefror 2023 (Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr) bellach wedi ei chyflawni a gellid ei dileu o'r Daflen Weithredu;
- Eitem 4 o Gyfarfod yr Awdurdod 11 Mehefin 2025 (Diweddariad Corfforaethol) hefyd

wedi ei chyflawni a gellid ei dileu o'r Daflen Weithredu.

Argymhellwyd: dileu'r ddwy eitem oddi ar y Daflen.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. Adroddiad Blynyddol 2024-25

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod yr Adroddiad Blynyddol Drafft a oedd yn cael ei gyflwyno'n adrodd mewn modd dealladwy'r gwaith roedd yr Awdurdod wedi ei gyflawni o ran gwireddu ei Amcanion Llesiant yn ystod 2024-25.

Nodwyd:

- bod yr Adroddiad yn cofnodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn 24-25, ac nad oedd felly'n cofnodi unrhyw ddatblygiadau a fu oddi ar hynny;
- nad oedd cysondeb yn y defnydd o rai termau (e.e. "parhaus", "i'w barhau", "yn barhaol") ac nad oedd yn eglur ai'r un ystyr oedd i'r termau gwahanol; esboniwyd mai iaith gwahanol benaethiaid oedd y rheswm am y termau ac ymadroddion gwahanol; awgrymwyd y dylid safoni a chysoni'r defnydd o dermau er eglurder.

Argymhellwyd: - bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi.

Penderfynwyd: — **mabwysiadu'r** Adroddiad a chymeradwyo ei gyhoeddi.

9. Plas Tan y Bwlch – Diweddariad

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod llawer o waith wedi ei gyflawni dan arweinyddiaeth Naomi Jones, y Cyfarwyddwr Rheoli Tir;
- bod yr adborth o'r gymuned wedi bod yn gadarnhaol, a bod nifer o randdeiliaid yn awyddus i gyd-weithio ar y prosiect;
- bod y sefyllfa ariannol ddifrifol yn parhau heb ei datrys a bod yr Awdurdod yn parhau i gadw golwg craff ar y sefyllfa.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir:

- bod y penseiri *Donald Insall Associates* wedi eu comisiynu i gynorthwyo'r Awdurdod i baratoi cynlluniau a dogfennaeth i gefnogi'r cais ar gyfer 'cyfnod datblygu' cais y Loteri;
- bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda *Donald Insall Associates* ymhen y mis i drefnu'r ffordd ymlaen;
- cafwyd cyfarfod gyda Cadw dros yr haf, eu bod yn hynod o gefnogol, a'u bod wedi cyfeirio at eu proses ymgeisio am grantiau er mwyn chwilio am arian cyfatebol ganddynt ar gyfer y bid;
- bod amserlen a ffigyrau'r cais heb newid:
 - cyflwyno'r cais cyfnod datblygu yn Chwefror 2026 (cais am £325,000 – 90% ohono gan y Gronfa Dreftadaeth, y gweddill o ffrydiau eraill);
 - disgwyl clywed ar lwyddiant neu fethiant y cais ym Mai neu Fehefin 2026;
 - cyflwyno'r cais mawr (y cais cyfnod cyflawni) am £9 miliwn yn 2027 (byddai'n rhaid chwilio am £1.5 miliwn ein hunain).

Nodwyd:

- bod rhai'n aros yn y Plas ar y pryd gan ddod ag incwm i mewn, a bod hyn yn dangos y gallai fod yn llwyddiannus;
- mai'r bwriad oedd bod yn berchen ar un ganolfan yn unig, a'r gobaith oedd na fyddai'r costau lawer yn uwch nag oeddynt ar y pryd;
- bod peth trafodaethau wedi bod ynglŷn â dyfodol y Pencadlys, ond na allai trafodaethau gyda rhai oedd wedi dangos diddordeb yn nyfodol y Pencadlys gychwyn tan ar ôl cael gwybod a oedd y cais wedi bod yn llwyddiannus; pe byddai'n llwyddiannus, byddai trafod ei ddyfodol gyda phobl leol yn flaenoriaeth;
- mai'r bwriad oedd paratoi'r cais cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig erbyn cyflwyno'r cais cyfnod cyflawni ddiwedd 2027 gyda'r bwriad o fod yn barod i ddechrau'r gwaith unwaith deuai'r caniatâd swyddogol gan y Gronfa.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi unrhyw adborth ar y broses.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

10. **Llythyr Grant Strategol Llywodraeth Cymru: Targedau a Mecanwaith Adrodd**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth ac y byddai adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd;
- bod y Llythyr Grant Strategol yn amlinellu blaenoriaethau'r Ysgrifennydd Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- byddai blaenoriaethau'r Llythyr yn cael eu hymgorffori yn Rhaglen Waith Corfforaethol yr Awdurdod;
- bod rhaglen monitro a thargedau wedi eu cynnwys gyda'r Llythyr am y tro cyntaf a byddai'n rhaid adrodd arnynt bob chwe mis.

Argymhellwyd: – nodi'r adroddiad er gwybodaeth

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

11. **Aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod cyfnod cyn-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, sef Mr Martin J Hughes, wedi dod i ben a bod yn rhaid i'r Awdurdod felly gytuno i sefydlu panel cyfweld a dechrau'r broses o benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn mynd ati i hysbysebu swydd Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bum mlynedd ac yn sefydlu Panel Cyfweld o bump yn unol â'r Rheoliadau i gynnwys un Aelod Lleyg i'w ddewis gan y Swyddog Monitro

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

12. **Diweddariad ar y Gyllideb 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn seiliedig ar 4 mis cyntaf y flwyddyn ariannol (1 Ebrill 25 i 31 Gorffennaf 25) a'i fod yn ddiweddariad ar y gyllideb wreiddiol a gymeradwywyd ym mis Chwefror;
- bod cytundeb cyflogau 25/26 bellach yn wybyddus, a'i fod yn dod i tua 3.2% ar y gyllideb, a oedd yn fwy na'r disgwyl, ond bod arian ychwanegol eisoes wedi ei roi o'r neilltu o lithriant, ac na fyddai'n effeithio ar y diffyg ar ddiwedd y flwyddyn;
- bod y llithriant hwnnw wedi ei ychwanegu at lithriant 24/25;
- o ran y gyllideb refeniw, bod disgwyl o hyd i orffen y flwyddyn ariannol gyda diffyg o £600,000;
- o ran y gyllideb gyfalaf, nad oedd llawer o newid i'w adrodd, ond bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni roi bid i mewn am grant diwedd blwyddyn.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

13. **Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2025/26 – 2028/29**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- bod y papur yn gosod allan yr hyn a ragwelid oedd yn mynd i ddigwydd yn y blynyddoedd nesaf;
- ei fod yn defnyddio graddfa chwyddiant o 2%;
- mai prif ffynhonnell arian yr Awdurdod oedd y grant a dderbynnid gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn £4.3 miliwn eleni; nad oedd disgwyl y byddai'r grant yn cynyddu'n fawr yn y blynyddoedd nesaf;
- bod grantiau weithiau'n dod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd, ond ei fod yn anodd cynllunio ar sail y rhain oherwydd yr ansicrwydd o wybod a dderbynnid y grant ai peidio;
- y rhagwelid diffyg yn y blynyddoedd i ddod a bod pwysau ariannol ar yr Awdurdod ond bod cronfeydd wrth gefn, a bod y cronfeydd hynny'n iach;
- bod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad i Weithgor Aelodau mis Hydref ar gynlluniau ar sut i ymateb i'r diffyg.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, fe ofynnwyd i'r Prif Weithredwr gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod faint llai o arian roedd yr Awdurdod wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn y deg mlynedd diwethaf. Cytunodd y Prif Weithredwr i wneud hynny.

Argymhellwyd bod yr Aelodau'n: –

- (i) Nodi ac ymateb i'r materion sydd wedi ei nodi yn y CATC;
- (ii) Mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel Dogfen Weithiol.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

14. **Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir.

Adroddwyd:

- bod cyfle i gynyddu incwm drwy gynnig tenantiaeth i fyngalo'r Ysgwrn, a bod y Pennaeth Eiddo'n parhau i weithio ar hyn, ond bod y gwaith wedi cymryd mwy o

amser nag a ddymunid oherwydd nad oedd perfformiad Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) y byngalo'n ddigon da nac yn cyrraedd gofynion Rhentu'n Ddoeth Cymru;

- byddai'n rhaid cyflwyno cais i adnewyddu statws achrediad amgueddfa'r Ysgwrn yn Ionawr 2026; bod rhaid gwneud hyn bob pum mlynedd, a'i fod yn golygu cyrraedd y safonau uchaf o safbwynt llywodraethiant, gofal casgliadau a phrofiad ymwelwyr;
- bod trafodaethau wedi bod gyda'r Gronfa Dreftadaeth dros yr haf ynglŷn â gweithio agosach rhwng y Plas, yr Ysgwrn a Chanolfan Ymwelwyr Betws-y-coed yn yr hirdymor.
- bod bwriad cyflwyno ceisiadau ariannol o fewn y ddwy flynedd nesaf i gofnodi deng mlwyddiant ail agoriad y safle ac mai'r bwriad oedd galluogi creu rhaglen strategol ar gyfer gweithgareddau a phenodi swyddog datblygu;
- y gobeithid penodi Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol newydd o fewn yr wythnosau nesaf.

Nodwyd:

- y gallai'r byngalo ddod ag incwm blwyddyn canolig mewn rhent.

Argymhellwyd: – i Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth a thrafod unrhyw faterion sydd angen sylw pellach

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

15. Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio.

Adroddwyd:

- bod y Cytundeb Cyflawni wedi ei rannu'n ddwy adran, sef yr Amserlen o'r holl gamau allweddol, a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
- byddai'r broses yn para 4 mlynedd a'i bod yn cynnwys camau pendant;
- cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft gyda rhanddeiliaid rhwng 16 Mai a 27 Mehefin 2025; derbyniwyd 27 o sylwadau yn dilyn yr ymgynghoriad;
- bod y ddogfen wedi ei newid ychydig:
 - i wella eglurder
 - i roi diweddariad ar y Cynllun Strategol Rhanbarthol
 - i gynnwys nifer o randdeiliaid ychwanegol

Argymhellwyd: – Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri [gyda Chytundeb o dan bwerau dirprwyedig ar gyfer addasiadau sy'n deillio o sylwadau Llywodraeth Cymru].

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

16. Seminar Aelodau Cymru 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- mai tro Parc Cenedlaethol Eryri oedd cynnal Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru eleni a'i fod yn cael ei gynnal ym Metws-y-coed ar 1-2 Hydref
- mai thema'r seminar oedd, "Adfer Natur: Hau Hadau Newid";
- bod gwahoddiad wedi ei estyn i Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, i fynychu'r Seminar ond na chafwyd ymateb

hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ac i Gynorthwyydd y Cadeirydd, Prif Weithredwr a'r Tim Arweinyddiaeth am eu holl waith yn trefnu'r Seminar.

Argymhellwyd: – i'r Aelodau gadarnhau eu presenoldeb neu beidio yn y Seminar drwy hysbysu'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

17. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd **nodi'r** cofnodion.

18. **Adroddiadau'r Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025.

Penderfynwyd **nodi'r** adroddiad.

19. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Nid oedd Aelod wedi mynychu cyfarfod allanol fel cynrychiolwr yr Awdurdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 10 RHAGFYR 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamat Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Edward Jones, Rhys Owen, Nia Murray, Eifion Jones.

Hefyd yn bresennol:

Matthew Edwards (Archwilio Cymru), Dan Price (Archwilio Cymru)

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Adroddodd y Cadeirydd:

- ei fod wedi mynychu'r Cyfarfod Staff a gynhaliwyd ym Mhlas Tan y Bwlch a'i fod yn gyfarfod da;
- ei fod ef ag Aelodau eraill wedi ymweld â thai Grŵp Cynefin yn Harlech ac fe gafwyd trafodaeth am eu gwaith yn y Plas;
- y cynhaliwyd Seminar Aelodau Cymru ym Metws-y-coed ym mis Hydref.

2. Diweddariad Corfforaethol

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- y byddai'n cyflwyno diweddariadau corfforaethol fel adroddiadau ysgrifenedig o gyfarfod nesaf yr Awdurdod ymlaen;
- bod y Seminar Aelodau Cymru a gynhaliwyd ym Metws-y-coed wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i bawb a gyfrannodd at ei lwyddiant;
- bod Cynllun Loteri Partneriaeth y Carneddau bellach wedi dod i ben a byddai

digwyddiad i ddathlu'r cynllun yn cael ei gynnal ym mis Mawrth. Roedd yn drist ei fod yn dod i ben ond fe fyddai'n sicr yn gadael gwaddol cadarnhaol;

- bod y paratodau tuag at ddathliadau'r Parc yn 75 yn parhau a bod y pedwar parc oedd yn dathlu (sef Eryri, Ardal y Llynnoedd, Peak District a Dartmoor) wedi comisiynu adroddiad ar hanes a dyfodol y 4 Parc ar y cyd a bod diweddariad i ddod;
- cafwyd Cyfarfod Staff gwerthfawr a rhoddodd aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth gyflwyniad o'u gweledigaeth am eu gwaith i'r staff;
- bod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru'n parhau mewn sawl maes, gan gynnwys llywodraethu (byddai diweddariad ar hyn yn dod yn eithaf buan), arolwg ar flwyddyn gyntaf Ffermio Bro, ac ynglŷn â'r gyllideb;
- bod prosiect cais loteri Plas Tan y Bwlch yn parhau, ac mai'r bwriad o hyd oedd cyflwyno'r cais fis Chwefror, ond bod posibilrwydd ei gyflwyno ym mis Mai os oedd rhaid;
- byddai Cwmni Egin, a gafodd ei sefydlu yn Nhrawsfynydd ar gyfer y posibilrwydd o gael *Small Modular Reactor* (SMR) yno, yn dod i ben fis Mawrth am nad oedd Trawsfynydd ar y rhestr fer i gael SMR bellach. Roedd y PW wedi cytuno cael cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Cwmni Egin i drafod y sefyllfa a'r goblygiadau ymhellach;
- bod y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, sy'n cael nawdd i barciau cenedlaethol Prydain, wedi dod i gytundeb gyda Helly Hansen iddynt ddarparu dillad i'r parciau.

Nodwyd:

- bod gwir bryder y byddai'r arian a glustnodwyd i Feirionnydd ar gyfer yr SMR (tua £40 miliwn) yn cael ei golli gan nad oedd y cynllun yn mynd yn ei flaen, bod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn gefnogol o'r dyhead i greu Parc Gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd a allai denu cyflogaeth o safon uchel, ac y byddai hyn yn cael ei drafod gyda rheolwyr y cwmni i weld beth oedd y goblygiadau a'r camau nesaf i'r safle;
- yn dilyn datganiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â chynnydd o 4% yn y cyllid i gynghorau, nad oedd yn eglur eto a oedd hynny i gynghorau sir yn unig, neu a oedd yn cynnwys y parciau cenedlaethol hefyd.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- na chafwyd cyfle hyd yma i gasglu'r ffigyrau ar gyfer eitem 13 ar y daflen (Y Prif

Weithredwr i gyflwyno ffigyrau ar “Faint llai o arian mae'r Awdurdod wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru yn y deg mlynedd diwethaf?”) ond fe fyddant yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol agos;

- parthed Eitem 18 ar y daflen, bod y Llywodraeth newydd yrru adroddiad drafft ar lywodraethu ac y byddai adroddiad yn dod gerbron yr Awdurdod ar ôl ystyried y ddogfen, ac felly
- dylai'r ddwy eitem aros ar y daflen;

Argymhellwyd: cadw'r ddwy eitem ar y Daflen.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. Cynrychiolaeth APCE ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod y Cynghorydd Elfed Powell Roberts wedi ei ethol yn gynrychiolydd Awdurdod Parc Eryri ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yr Awdurdod ym mis Mehefin;
- bod y Cynghorydd, fodd bynnag, eisoes yn aelod o'r Grŵp fel Cynghorydd Sir ar ardal Trawsfynydd;
- ei fod felly, wedi penderfynu ymddiswyddo fel cynrychiolydd yr Awdurdod i roi cyfle i Aelod arall i fynychu cyfarfod nesaf y grŵp (a oedd i'w gynnal diwrnod ar ôl y cyfarfod yma);

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Delyth Lloyd yn cynrychioli APCE ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd.

Cafwyd pleidlais ac **etholwyd** Delyth Lloyd fel cynrychiolydd yr Awdurdod ar Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd.

9. Cynllun Archwilio Ariannol 23-24

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Archwilio, Archwilio Cymru (AC).

Adroddwyd:

- bod y cynllun archwilio'n gosod allan y wybodaeth oedd yn rhaid ei rhannu o ran y safonau archwilio rhyngwladol;
- bod y cynllun yn cyfeirio at archwiliad cyfrifon 23-24 oherwydd yr oedi a fu yn amserlen yr Awdurdod i baratoi cyfrifon ers Covid;
- bod gwaith archwilio perfformiad y cynllun yn cyfeirio at y flwyddyn 25-26;
- bod tipyn o wahaniaeth rhwng y blyneddodedd yma, ond mai'r bwriad oedd archwilio cyfrifon 24-25 a 25-26 o fewn y deunaw mis nesaf i ddal i fyny;
- byddai AC yn rhoi adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliad yn y flwyddyn newydd.

Nodwyd:

- bod rheol statudol y dylai cyfrifon gael eu cwblhau o fewn misoedd i ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond nad dyna oedd y sefyllfa gyda'r Awdurdod;
- bod amserlen Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod anelu at gwblhau cyfrifon 24-25 erbyn diwedd mis Hydref y flwyddyn nesaf (2026) a chyfrifon 25-26 erbyn y mis Medi canlynol (2027);
- bod yr amserlen yn un heriol i'r Awdurdod, ac y byddai i unrhyw gorff:-
 - roedd nifer o gyrff cyhoeddus eraill yn yr un sefyllfa

- roedd yr un faint o waith gan yr Awdurdod i baratoi'r cyfrifon ag oedd i gynghorau sir, ond bod lefelau staffio'r Awdurdod dipyn yn llai na lefelau staffio cynghorau sir;
- bod yr adran gyllid wedi gweithio gyda chwmni allanol er mwyn dal i fyny â'r amserlen;
- byddai diweddariad ar yr amserlen a'r llwyddiant o gadw ati'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i gael cadw golwg ar ddatblygiadau.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi unrhyw adborth ar y broses.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

10. Cofrestr Risg yr Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- trosolwg o'r Risgiau ar y Gofrestr a'r newidiadau a fu ynddynt dros y flwyddyn ddiwethaf;
- bod 20 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr – 4 wedi'u dosbarthu fel risgiau Uchel, 12 fel risgiau Canolig a 4 fel risgiau Isel;
- bod dau risg newydd wedi eu hychwanegu at y gofrestr:
 - Risg 2: Plas Tan y Bwlch – risg enw da ac ariannol (Risg Uchel)
 - Risg 20: Methu cydymffurfio gyda gofynion statudol strwythurau ac isadeiledd (Risg Uchel)
- bod y Gofrestr yn cynnig dileu 3 Risg, sef:
 - Risg 13: Cynhyrchu Incwm Cynllunio,
 - Risg 14: Cyfarwyddyd Erthygl 4 â'r risg o her gyfreithiol ar yr Awdurdod drwy Adolygiad Barnwrol,
 - Risg 15: Capasiti staff annigonol oherwydd cynnydd posibl yn y llwyth gwaith drwy gynyddu ceisiadau cynllunio yn dilyn Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Nodwyd:

- dylid cynnwys (i) Etholiadau Senedd Mai 2026 a (ii) Pedwerydd Parc Cenedlaethol Cymru arfaethedig at y Gofrestr fel Risgiau i'r Awdurdod;
- bod rhai risgiau cynhenid ar y Gofrestr (e.e. Risg 6) wedi derbyn llawer o sylw a gwaith ond nad oedd sgôr y gweddill risg wedi disgyn ac nad oedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf yn gywir; adroddwyd bod y Tîm Arweinyddiaeth bellach yn mynd trwy'r Gofrestr Risg yn fisol, a byddant yn talu sylw i hyn;
- nad oedd manylion Risg 20 (Methu cydymffurfio â gofynion statudol strwythurau ac isadeiledd) wedi eu disgrifio'n eglur. Esboniwyd bod isadeiledd ar draws y Parc bellach dan bwysau gan nad oedd tanciau septig yn addas i'r nifer o ymwelwyr a gaed, bod sawl safle o dan archwiliad, bod llythyrau rhybudd wedi'u derbyn am fwy nag un lle, bod cronfeydd dŵr yn flaenoriaeth a bod gweithred cwblhau gwaith ar Lyn Mair erbyn Gorffennaf 2026, bod y risgiau'n uchel i enw da'r Awdurdod ac i'r amgylchedd;
- mewn ymateb i gwestiwn ar Risg 20 – a oedd digon o gyllid i ddelio gyda'r risg – esboniwyd mai mater caniatâd ydoedd yn y bôn ac nid mater cyllideb, bod ceisiadau caniatâd a cheisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno ers amser ond bod gwrthwynebiadau wedi eu codi;
- bod hyn yn flaenoriaeth i'r Awdurdod ac y byddai adroddiad diweddarau'n cael ei

gyflwyno i'r Gweithgor Aelodau maes o law;

- bod derbyn Llythyr Rhybudd Ffurfiol yn arwydd o risg i fywyd, nid yn unig i'r amgylchedd, ond pwysleisiwyd mai risg anuniongyrchol oedd – bod angen gosod sifffon yn Llyn Mair er mwyn gallu reoli lefel y dŵr yn y Llyn petai lif sylweddol.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad, a thynnu Risgiau 13, 14 ac 15 o'r Gofrestr.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

11. **Datganiad o Gyfrifon Drafft 2023-24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- ei fod yn statudol ofynnol bod y Prif Swyddog Cyllid yn arwyddo'r cyfrifon drafft i ddangos ei fod yn gyfforddus gyda chynnwys y datganiad;
- bod y cyfrifon eisoes wedi eu pasio ymlaen at Archwilio Cymru (AC) iddynt ddechrau'r gwaith o'u harchwilio. Wedi i'r archwiliad gael ei gwblhau byddai set o gyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno ynghyd ag adroddiad ISA260 (adroddiad a fyddai'n adrodd barn AC ar y cyfrifon) ac y byddai gofyn i'r Awdurdod eu cymeradwyo'r pryd hynny os yn hapus gyda hynny;
- bod beirniadaeth wedi'i derbyn gan yr Archwiliwr ar gyfrifon blynyddoedd blaenorol, a bod cwmni allanol wedi dod i mewn i gynorthwyo adnabod meysydd lle gellid gwella.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon 2023/24.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

12. **Diweddariad ar y Gyllideb 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

Adroddwyd:

- bod diweddariad o'r gyllideb yn cael ei gyflwyno tair gwaith y flwyddyn;
- nad oedd fawr ddim o newidiadau wedi bod ers diweddariad fis Medi:
 - bod pawb yn gweithio o fewn eu cyllidebau
 - nad oedd disgwyl y byddai unrhyw newid i'r diffyg o fewn y flwyddyn, sef £635K, a byddai'r diffyg hwnnw'n cael ei gyllido gan gronfeydd a oedd eisoes yn bodoli;
 - bod disgwyl y byddai costau rhedeg Plas Tan y Bwlch yn gostwng yn sylweddol eleni i £150K;
 - bod targed meysydd parcio wedi ei wireddu bellach a bod y gwarged yn cael ei neilltuo i'r gronfa asedau;
 - nad oedd unrhyw drosglwyddiad wedi digwydd.

Nodwyd:

- derbyniwyd arian ychwanegol o Lywodraeth Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 23-24 a phenderfynwyd ei roi'n benodol i gyfeirio at yr her ariannol a'r diffyg o fewn cyllidebau'r Awdurdod.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26.

13. *Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*
Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2026/27
Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- bod y gyllideb wedi darparu 3% ar gyfer chwyddiant cyflogau yn 2026-27
- bod cynnydd o 2% i setliad grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 wedi ei ragdybio;
- byddai ailbrisiad diweddar y gronfa bensiwn llywodraeth leol yn fanteisiol iawn i'r Awdurdod y flwyddyn nesaf;
- byddai'r gyllideb ffurfiol yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 4 Chwefror 2026

Argymhellwyd: – nodi'r gyllideb sylfaenol a gynlluniwyd ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellwyd.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

14. **Mynd i'r Afael â'r Her Ariannol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod sail yr adroddiad hwn wedi'i thrafod gan yr Aelodau yng Ngweithgor mis Hydref a rhoddwyd trosolwg o'r strategaeth a gaed yn yr adroddiad.

Nodwyd:

- ei fod yn hyderus y gellid cynyddu'r incwm o'r canolfannau ond ei fod yn dibynnu ar gwblhau addasiadau i'r adeiladau, gwella telerau pryniant a chynyddu maint ac ystod y stoc;
- bod cryn ansicrwydd am beth fyddai canlyniadau'r cynnydd yn ffioedd cynllunio ac y gallai arwain at leihad yn nifer y ceisiadau;
- byddai papur ar greu swydd Rheolwr Masnachol yn cael ei gyflwyno i Weithgor Aelodau mis Mawrth 2026;
- bod gan nifer o Barciau Cenedlaethol eraill Reolwr Masnachol eisoes a bod y model yn gweithio'n dda mewn rhai lleoedd;
- bod Argymhelliad g. ("peidio â dileu unrhyw swyddi gwag") yn sôn yn benodol am y swyddi a soniwyd amdanynt ym mharagraff 56 o'r adroddiad.

Argymhellwyd: – I'r Aelodau gefnogi'r egwyddorion canlynol i ffurfio rhan o Strategaeth Ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2026/27:

- a. Cytuno â'r egwyddor o gynyddu tariffau parcio ceir a gweithredu gorfodaeth fwyfwy er mwyn dod â £500,000 ychwanegol y flwyddyn i mewn
- b. Gosod targed o £40K ychwanegol y flwyddyn o incwm manwerthu
- c. Cytuno i gadw ffioedd cynllunio a gyllidebwyr ar y lefelau presennol ond i fonitro'r amserlen ffioedd newydd yn agos dros y 12 mis nesaf.
- d. Archwilio ffynonellau incwm masnachol posibl eraill, gan gynnwys recriwtio Rheolwr Masnachol dros y 12 mis nesaf.
- e. Nodi'r arbedion yn ein cyllideb sylfaenol o £130K oherwydd cyflwr iach y gronfa bensiwn bresennol.
- f. Cadw cyllidebau cyfalaf presennol yr Awdurdod fel rhan allweddol o weithrediad yr Awdurdod – ond parhau i fonitro'r sefyllfa

- g. Peidio â dileu unrhyw swyddi gwag – ond parhau i fonitro'r sefyllfa sy'n ymwneud â setliad cyllidebol Llywodraeth Cymru
- h. Peidio â mynd ar drywydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol - ond parhau i fonitro'r sefyllfa sy'n ymwneud â setliad cyllidebol Llywodraeth Cymru

Penderfynwyd: — derbyn yr argymhelliad.

15. Cynhyrchu Incwm – Adolygu Ffioedd Parcio

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad hwn wedi'i drafod gan yr Aelodau yng Ngweithgor mis Hydref;
- bod y Prif Weithredwr, y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo, Swyddogion Cymunedol a Wardeiniaid Lleol wedi cyfarfod â Chyngor Cymuned Betws-y-coed, Cyngor Cymuned Llanygerw a Chyngor Tref Bala ers y Gweithgor yn Hydref gan eu bod yn cael eu heffeithio gan yr argymhellion yn yr adroddiad o ran gorfodaeth ANPR. Yn dilyn y trafodaethau hynny penderfynwyd estyn yr amser y câi trigolion barcio cyn 8:00 y bore ac ar ôl 17:00 yn yr hwyr yn ddi-dâl o hanner awr i awr;
- bod Cyngor Betws-y-coed wedi codi pryderon ynglŷn â gwersyllfaniau'n parcio dros nos yn y pentref a'i fod yn bwysig bod yr Awdurdod yn agored i'w pryderon, yn osgoi gwrthdaro gyda'r gymuned ac yn cadw cysylltiad agos.

Nodwyd:

- bod trafodaethau gyda Pharciau Cenedlaethol eraill wedi eu cynnal a bod prisiau parcio'n cael eu cymharu'n flynyddol, bod prisiau'r Parc yn cymharu'n ffafriol gyda pharciau eraill;
- bod y cynnydd yn y ffioedd yn ymddangos yn fawr am nad oedd wedi bod yn bosib cynyddu'r ffioedd yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf;
- mai treialu'r system ANPR oedd y bwriad yn gyntaf, bod y cwmni oedd wedi ei ddewis i weithredu'r system eisoes wedi dod â systemau tebyg i ardaloedd lleol, bod modd gofyn am newidiadau i'w wneud yn addas i'r lleoliad, ac fe fyddai'n gwbl ddwyieithog a'r Gymraeg yn cael ei gwirio;
- mai Rhif Cerbyd penodol a fyddai'n cael ei gofrestru ar gyfer trwyddedau blynyddol;
- byddai data'n cael ei gasglu yn ystod y flwyddyn gyntaf ac yn cael ei archwilio am batrymau a gwybodaeth;
- bod pedair awr o arhosiad wedi ei ddewis yn hytrach na thaliadau am bob awr fel nad oedd ymwelwyr yn teimlo pwysau i frysio nôl i'w ceir, a bod pedair awr yn ddigon o amser i'r rhan fwyaf o ymwelwyr;
- pwysigrwydd cyfathrebu'r newidiadau yma mewn modd positif a bod cysylltu wedi bod rhwng yr Awdurdod â'r cymunedau lleol i roi'r cyd-destun a'r rhesymau am y newidiadau;
- nad oedd plwg safonol i feiciau trydan a bod hyn yn rhwystro creu mannau gwefru mewn meysydd parcio;
- nad oedd cael mannau parcio dros nos dynodedig i wersyllfaniau (tebyg i Aires Ffrengig) yn bolisi ar y pryd, ond ei fod yn rhywbeth oedd yn cael ei ystyried wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol;
- bod cwynion wedi eu derbyn gan fusnesau oedd â safleoedd gwersylla swyddogol eu bod wedi gweld lleihad yn eu busnes a chynnydd mewn parcio ac aros dros nos wrth ochr y ffordd ac mewn cilfannau yn hytrach nag ar ei safleoedd, a dylid gofalu na fyddai busnes yn cael ei dynnu oddi wrthynt;

- bod y peiriannau rhoddion yn llwyddiannus ar y cyfan, byddai'r peiriannau'n derbyn taliadau cerdyn yn ogystal ag arian mân ac yn arbed costau gweinyddol i'w gymharu â'r hen flychau rhoddion;
- nad oedd cyfeiriad at faes parcio Benar (Morfa Dyffryn), yn yr adroddiad, bod y maes parcio'n wag ym misoedd yr Haf ond bod ceir yn parcio wrth ochr y ffordd gan rwystro mynediad gwasanaethau argyfwng i'r traeth.

Argymhellwyd: –

- 1 Nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed eisoes o wella rheolaeth ac incwm meysydd parcio.
- 2 Derbyn yr argymhellion i adolygu ffoedd parcio fel yr amlinellir yn 3.2 - 3.8 yn yr adroddiad, gan ychwanegu Maes Parcio Morfa Dyffryn at y meysydd parcio a restrir yn 3.4.
- 3 Derbyn yr argymhellion i adolygu oriau gweithredu'r safleoedd fel y nodir yn 3.9 yn yr adroddiad.
- 4 Derbyn yr argymhellion i dreialu gorfodi gyda thechnoleg ANPR fel y nodir yn 3.10 yn yr adroddiad ac adolygu ar ddiwedd y tymor dilynol a thrafod ymhellach cyn ymestyn i safleoedd eraill.
- 5 Derbyn y bwriad i osod peiriannau derbyn rhoddion ar y safleoedd a nodir yn 3.11 yn yr adroddiad i ddenu cyfraniadau.
- 6 Derbyn yr argymhelliad i gynyddu cyllideb y Gronfa Gymunedol fel yr amlinellir yn 4.2 yn yr adroddiad.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

16. Adroddiad Adran 6

Nododd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir:

- ei diolchgarwch i Dafydd Roberts, Uwch Ecolegydd yr Awdurdod am baratoi'r adroddiad;
- fod adferiad natur yn un o brif heriau ac uchelgeisiau'r Awdurdod a bod yr adroddiad yn dangos gymaint o waith oedd yn digwydd o fewn yr Awdurdod;
- yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod y Prif Weithredwr yn awyddus i godi uchelgais yr Awdurdod yn y maes a bod hyn yn ddibynnol ar gyd-weithio gyda phartneriaid a'r adnoddau oedd ar gael ar gyfer cyflawni'r gwaith;
- ei fod yn adroddiad a fyddai'n dod gerbron yr Awdurdod bob tair blynedd ond bod bwriad i adrodd yn flynyddol ar waith y Bartneriaeth Natur o hyn ymlaen, er mwyn adrodd ar flaenoriaethau'r Awdurdod yn y maes yma.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Adroddwyd:

- ei fod yn waith sylweddol gan dîm gweithgar a'i fod yn crynhoi'r math o waith oedd wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf.

Nodwyd:

- byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ac yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru;
- bod yr adroddiad wedi ei gynhyrchu yn ôl fformat a thempled oedd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru a bod hynny'n clymu'r diwyg ond gellid gwneud cyflwyniad mewn fformat mwy gweledol a haws ei dilyn erbyn blwyddyn nesaf;

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

17. **Gweithredu Argymhellion Archwilio Cymru yn dilyn Asesiad Risg**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod Archwilio Cymru (AC) wedi dechrau Asesiad Sicrwydd a Risg o'r Awdurdod ym mis Ionawr, cafwyd cyfarfod â swyddogion AC ar 7 Mai, a derbyniwyd llythyr gan AC yn dilyn y cyfarfod hwnnw;
- bod dau fater arwyddocaol wedi codi'n dilyn y gwaith yma:
 - bod diffyg trefniadau ar gyfer diogelu oedolion a phlant agored i niwed y gallai'r Awdurdod rhyngweithio â nhw, ac
 - nad oedd hyfforddiant i swyddogion nac Aelodau ar eu cyfrifoldebau diogelu;
- bod yr Awdurdod, yn dilyn yr argymhellion a dderbyniwyd gan AC, wedi cynhyrchu Polisi Diogelwch newydd dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd:

- bod canllawiau symlach na'r polisi cyfan yn cael eu paratoi;
- nad oedd sôn yn y polisi am gyhuddiadau yn erbyn staff; cadarnhawyd bod gan yr Awdurdod bolisi a threfniadau penodol ar hynny eisoes, ac os oedd angen byddai'r polisi yn cael ei addasu i gynnwys cyfeiriad at y drefn a geir yn y polisi hwnnw.

Argymhellwyd: – bod yr Aelodau'n:

- a. Nodi cynnwys llythyr AC sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2
- b. Cymeradwyo'r Polisi Diogelu sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3
- c. Nodi y bydd canllawiau a hyfforddiant mwy manwl ar gymhwyso'r Polisi Diogelu yn digwydd erbyn Gwanwyn 2026, a
- d. Nodi bod system ar waith i sicrhau bod yr holl ddogfennau a chanllawiau corfforaethol yn cael eu diweddarau.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

18. **Polisi Urddas yn y Gwaith**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- bod y ddeddf wedi ei diwygio'n ddiweddar i roi fwy o gyfrifoldeb penodol ar yr Awdurdod i egluro i unrhyw drydydd-parti a'u hyfforddi ynglŷn â disgwyliadau'r Awdurdod ganddynt;
- bod diwygio'r ddeddf wedi cynnig cyfle i ddiweddarau'r polisi a'i wneud yn fwy modern.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r polisi Urddas yn y Gwaith, a'i weithredu ar draws yr Awdurdod:

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

19. **Adroddiadau'r Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiadau ar gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Mai, 3 Medi, 15 Hydref a 12 Tachwedd 2025.

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau.

20. **Cofnodion y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Medi 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd nodi'r cofnodion.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- bod Cyn-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi ymddeol a bod yr Awdurdod wedi ceisio llenwi'r swydd wag a phenodi Aelod Annibynnol arall, ond ei fod wedi methu hyd yma; bod y swydd wedi ei hysbysebu unwaith eto a bod hysbysebion wedi eu hanfon at nifer o bapurau bro y tro yma; y gobaith oedd y byddai Aelod newydd yn cael ei benodi yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

21. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Rhoddwyd cyflwyniad byr ar Grŵp Budd-Ddeiliaid Safle Trawsfynydd. Esboniwyd:

- mai pwyllgor rhwng Nuclear Decommissioning Authority (NDA) a Nuclear Restoration Services Limited (NRS - Magnox gynt, oedd yn rhedeg yr orsaf bŵer) a'r gymuned oedd;
- gallai unrhyw un ymuno â'r grŵp;
- bod pryder ar y pryd am fod nifer o staff o'r NDA a'r NRS wedi cael cynnig ymddeoliad cynnar;
- nad oedd unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â'r bont droed ar draws y llyn;
- bod yna bryder fod y *Small Modular Reactor* (SMR) yn mynd i Fôn a dim byd yn cael ei gynnig i Drawsfynydd;
- bod gostwng lefel to'r orsaf yn mynd i ddechrau'n fuan;
- bod gwaith yn mynd yn ei flaen i greu Parc Gwyddoniaeth yn Nhrawsfynydd, ond bod pryder ers colli Cwmni Egino.

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25



COFNODION
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 4 CHWEFOR 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamat Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweeney, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Rhys Owen, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Swyddog Gwasanaethau Democritaidd y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu, ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes.

2. Diweddariad Corfforaethol

Cyflwynwyd diweddariad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr yn nodi rhai o'r materion allweddol oedd wedi codi er cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

Adroddwyd ymhellach:

- y byddai diweddariad pellach ar Blas Tan y Bwlch yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Gweithgor Aelodau 25 Chwefror, a byddai'r Diwrnod Datblygu Aelodau (i'w gynnal ar 13 Mawrth) yn canolbwyntio ar ddatblygiadau'r Plas;
- y byddai diweddariad pellach ar Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau yng nghyfarfod Gweithgor Aelodau 25 Chwefror;
- bod Cynhadledd NPUK (Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig) yn cael ei chynnal rhwng 16 a 18 Medi 2026 ym Macdonald Aviemore Resort, Aviemore, ym Mharc Cenedlaethol Cairngorms. Dau swyddog a dau aelod fyddai'n mynychu fel arfer, a byddai'r Cadeirydd ac yntau'n edrych ar bwy allai fynd;
- bod yr Awdurdod wedi ei wahodd i gyflwyno cais am arian tanwariant diwedd y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd yn wybyddus faint o arian oedd ar gael, ond roedd cais sylweddol wedi ei gyflwyno a byddai'n rhaid ei wario cyn diwedd mis Mawrth.

Nodwyd:

- bod yr Aelodau wedi gwerthfawrogi cael y diweddariad ar ffurf ysgrifenedig;
- bod adran gynllunio'r Awdurdod bellach yn llawn o ran staff yn dilyn penodiad Uwch Swyddog Cynllunio yn ddiweddar;
- bod rhagor o arian wedi ei dderbyn ar gyfer Ffermio Bro, a bod hyn wedi galluogi:
 - creu dwy swydd ychwanegol a olygai byddai 5 swyddog ac un swyddog gweinyddol yn gweithio i Ffermio Bro;
 - dosbarthu £100,000 pellach (uwchben yr arian cyflogi) i'r cynllun;
- ei fod wedi'i benderfynu na fyddai unrhyw ddatblygiadau ar ganolfannau croeso Beddgelert nac Aberdyfi yn y tymor byr oherwydd bod y cyfleoedd yn gyfyng yno; bod yna gyfle i wneud pethau mawr yng nghanolfan Betws-y-coed yn y tymor canolig ond nad oedd y capasiti i wneud hynny ar hyn o bryd ond ein bod mewn sefyllfa i ddatblygu y siop/ganolfan ym Mhen-y-pass dros y Gaeaf.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- na fu unrhyw ddatblygiad ar y materion ar y daflen weithredu ers y cyfarfod diwethaf a dylent barhau ar y daflen am y tro.

Argymhellwyd: cadw'r ddwy eitem ar y Daflen.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. **Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol am 2026/2027**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Rhodddwyd trosolwg o'r sefyllfa ac *adroddwyd:*

- bod y sefyllfa lawer yn well nag a ragwelwyd ond byddai diffyg sylfaenol yn parhau;
- bod 3% wedi'i gosod ar gyfer cynnydd cyflogau yn 2026/27;
- bod cynnydd sylweddol mewn incwm yn cael ei ragweld.

Argymhellwyd: —

- (i) Cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar

gyfer 2026/27, fel y'i cyflwynir yn yr atodiadau dilynol

- (ii) Cymeradwyo'r ardollau ar yr awdurdodau bilio, fel nodir yn rhan 6.3 o'r adroddiad.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

9. **Strategaeth Cyfalaf 2026/2027**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn darparu trosolwg lefel-uchel o'r modd yr oedd gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi darparu gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol.

Argymhellwyd: —

- (i) Nodi nad oes bwriad i fenthycu arian at ddibenion cyfalaf, ond mae'r cyfyngiadau isod yn cael eu hargymell ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn bydd argyfwng neu fod angen gwariant ar fyr rybudd.
- (ii) Cymeradwyo dim newid yn:
 - a. y Cyfyngiad Benthycu Awdurdodedig o £500,000 ar gyfer 2026/27, a Ffin Weithredol o £100,000, a
 - b. dim cyfyngiad ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.
- (iii) Mabwysiadu'r Strategaeth Benthycu Cyfalaf ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a 7.1 o'r adroddiad).
- (iv) Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.5-3.14 yr adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

10. **Cynllun Grant CANI (Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth yn rhoi trosolwg o ddau brosiect oedd wedi derbyn grantiau o dan y Cynllun Grant CANI, sef:

- (i) Y goeden iawn yn y lle iawn;
- (ii) Ffermio adfywiol.

Adroddwyd:

- ar fwriadau, goblygiadau a risgiau'r ddau gynllun;
- bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig llai o amser i wireddu'r cynllun nag a obeithiwyd ei gael ond bod trafodaethau wedi dechrau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i geisio ymestyn yr amser hyd Fawrth 2029;
- bod y gallu i recriwtio personau addas yn peri peth pryder, ac y byddai methu â recriwtio'n gosod pwysau ychwanegol ar y tîm presennol, a oedd eisoes dan bwysau llwyth gwaith;
- mai risg arall oedd gallu dechrau'r cynllun ond methu â'i gwblhau, a methu hawlio'r cyllid yn ôl o'r herwydd;
- bod gweithio trwy raglen Taliadau Gwledig Cymru (TGC) yn anodd, yn ddi-wyneb ac araf;
- bod y tîm yn hyderus am y cynlluniau ac yn awyddus i fynd amdanynt.

Nodwyd:

- mewn ymateb i gwestiwn a oedd yna rywbeth gwahanol gellid ei wneud i gynyddu'r siawns o recriwtio rhywun yn llwyddiannus dywedwyd:
 - o ran y cynllun, "Y goeden iawn yn y lle iawn", bod RSPB yn mynd i ariannu rhan o'r cynllun ar gyfer dalgylch Wnion, a bod swyddog rhan-amser gyda'r Parc am gynyddu ei oriau gwaith ac yn awyddus i fod yn rhan o'r cynllun; ac o ran swydd Rheolwr Prosiect fod yna aelodau o staff oedd ar gytundebau byrdymor a oedd yn dod i ben yn y dyfodol agos a bod opsiwn yno i ymestyn eu cytundebau i'r cynllun;
 - gallai'r cynllun, "Ffermio adfywiol" fod yn fwy anodd: roedd yn faes newydd ac arbenigol ac yr oedd recriwtio ar ei gyfer yn achosi peth pryder, ond bod rhai aelodau o staff oedd yn gweithio ar Ffermio Bro yn ystyried y posibilrwydd ohonynt newid drosodd i'r cynllun newydd;
- rhai sefydliadau (e.e. Prifysgol Bangor) y gellid cysylltu â nhw i weld a oedd ganddynt bobl a fyddai â diddordeb a'r sgiliau i weithio ar y cynlluniau;
- bod y ffigyrau a roddwyd yn cynnwys costau staff, a bod y costau hynny'n cyfrif at ryw draean o gyfanswm y costau;
- bod y cynllun, "Y goeden iawn yn y lle iawn", yn cynnwys cael gwared â choed duon o ardaloedd SoDdGA (e.e. Waun y griafolen), tynnu coed conifer oedd yn dod i ddiwedd eu hoes ac ail-blannu rhywbeth mwy addas a brodorol, a gwaith gwneud coed hynafol yn fwy hyfyw yn erbyn newid hinsawdd;
- bod arian wedi ei neilltuo yng nghynllun "Ffermio adfywiol" i gyflogi ymgynghorwyr arbenigol;
- bod arian yn y cynllun i ehangu meithrinfeydd y Parc a bod y Parc eisoes yn prynu cynnyrch o feithrinfeydd allanol.

Argymhellwyd: – I dderbyn y cynnig o'r ddau brosiect OND i fod yn wiliadwrus o system hawlio TGC.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

11. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd **nodi'r** cofnodion.

12. **Cofnodion y Cyd-weithgor Lleol**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyd-weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025.

Penderfynwyd **nodi'r** cofnodion.

13. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Adroddwyd:

- bod Delyth Lloyd wedi mynychu cyfarfod o Grŵp Rhanddeiliaid Trawsfynydd, a bod Elfed Powell Roberts wedi ei ethol yn Gadeirydd y Grŵp yn y cyfarfod;
- bod Tim Jones wedi mynychu cyfarfod o'r Fforwm Mynediad, a thrafodwyd rheoli gwersylla gwyllt a dringo Crib Goch.

Cyhoeddwyd bod bwriad trefnu taith gerdded / rhedeg dan ofal Arwel Ellis ac Ioan Gwilym lle byddai unigolion yn dechrau eu taith o leoedd gwahanol yn Eryri (Cadair Idris, Yr Wyddfa ayyb), pob un yn cario darn o jig-so, ac yn cyfarfod tua'r un amser ym Mhlas Tan y Bwlch a gosod yr holl ddarnau jig-so at ei gilydd.

Cyhoeddwyd bod Tom Ellis, cyn-aelod o'r Awdurdod, wedi colli ei gymar yn ddiweddar, ac estynnwyd cydymdeimladau ato yn ei golled.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:00



**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 9 Ebrill 2025**

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.

Swyddogion

Jonathan Cawley, G. Iwan Jones, Aled Lloyd, Eva Jones, Elliw Owen, Eifion Jones.

Cynghorodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Einir Wyn Williams, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Mr Tim Jones a Ms Naomi Luhde-Thompson.

Soniodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar ac awgrymodd anfon llythyr ato gan yr Aelodau yn dymuno gwellhad buan iddo.

Croesawodd Mr Rhys Evans a Mr Wyn Thomas i'w cyfarfod cyntaf fel Aelodau Awdurdod. Nododd nad oeddent yn gallu cyfrannu at benderfyniadau yn y cyfarfod am nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol eto.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio ar Gynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni

Adroddwyd: –

- bod dwy brif ran i'r Cytundeb Cyflawni, sef
 - Rhan A: Amserlen o gyfnodau allweddol paratoi'r Cynllun; a
 - Rhan B: Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n amlinellu sut a phryd y byddai'r gymuned yn gallu cymryd rhan yn y broses o baratoi'r Cynllun
- bod y cytundeb cyflawni yn nodi sut y byddai'r yr Awdurdod yn cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Eryri newydd
- bod copi drafft o'r cytundeb cyflawni wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru ar gyfer sylwadau cychwynnol

Argymhellwyd – trafod a rhoi sylwadau ar gynnwys y drafft Cytundeb Cyflawni a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid.

Penderfynwyd: — **cymeradwyo'r** Cytundeb Cyflawni drafft.

6. **Adroddiadau Diweddarau**

6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 09 EBRILL 2025

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

Cyflwynwyd:

- (1) NP5/65/256B – Dymchwel rhan o'r cyn-westy a chodi 5 tŷ marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 tŷ fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras wedi'i adeiladu o'r newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd, Neuadd Bontddu, Bontddu. (Cais diwygiedig).

Adroddwyd:

- bod y safle o fewn ffin datblygu tai Bontddu a byddai'n cyfrannu at nifer yr unedau tai fforddiadwy ac yn cyfrannu at darged yr Awdurdod o ddarparu 375 o dai fforddiadwy o fewn oes Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- bod y safle mewn cyflwr bregus ac yn amharu ar fwynderau gweledol pentref Bontddu a'r ardal ehangach;
- bod yna gyfyngiadau i ddatblygu'r safle oherwydd nodweddion y safle a chyflwr presennol yr adeilad sydd wedi'i ddifrodi gan dân;
- bod y cyflwyniad diwygiedig yn ddatblygiad mwy priodol;
- y dylid cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwmo i Gytundeb Adran 106 gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn llwyddiannus.

Rhoddodd Geraint Lewis o *Geraint Lewis Associates*, a oedd yn cyflwyno'r cais ar ran yr Ymgeisydd, gyflwyniad i'r cyfarfod gan nodi:

- fod yr adeilad wedi'i ddifrodi'n sylweddol gan dân yn 2020 a bod perygl i rhannau sylweddol o'r waliau ddisgyn;
- y byddai'r datblygiad yn darparu pedwar tŷ fforddiadwy mawr eu hangen i'r pentref;
- y byddai'r tai marchnad agored yn cynorthwyo ariannu'r tai fforddiadwy.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y pryderon yma:

- nad oedd dyluniad y tai yn gweddu i Bontddu
- nad oedd dyluniad y tai fforddiadwy a'r tai marchnad agored yn debyg;
- y dylai'r gymhareb rhwng nifer y tai marchnad agored a nifer y tai fforddiadwy fod yn 4:4;
- y byddai gormod o olau'n dod o'r adeiladau;
- y byddai'r datblygiad yn darparu pedwar tŷ fforddiadwy mawr eu hangen i'r pentref.

Argymhellwyd – bod Panel Ymweld y De yn ymweld â'r safle i archwilio'r cais ymhellach.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 21 Mai 2025

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson.

Swyddogion

G. Iwan Jones, Iona Roberts, Aled Lloyd, Sophie Berry, Edward Jones (Rhan 2 yn unig), Naomi Jones (Rhan 2 yn unig), Eifion Jones.

Cynghorodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Einir Wyn Williams ac Ifor Glyn Lloyd, Mr Wyn Thomas, a Mr Jonathan Cawley.

2. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddodd yr Uwch Swyddog Cynllunio ei fod wedi nodi sylwadau Cyngor Cymuned Llanelltyd yn ymateb i'r cais i ddymchwel Gwesty Bontddu yn ystod ei gyflwyniad ar y cais, ond nad oedd hyn wedi ei gofnodi yn y cofnodion, ac y byddai'n ail-adrodd ei sylwadau yn ystod ei gyflwyniad ar y Panel Ymweld.

4. **Adroddiad Panel Ymweld**

Cyflwynwyd:

NP5/65/256B – Dymchwel rhan o'r cyn-westy a chodi 5 tŷ marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 tŷ fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras wedi'i adeiladu o'r newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd, Neuadd Bontddu, Bontddu. (Cais diwygiedig).

Adroddwyd:

- bod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu wedi gwneud sylwadau mewn ymateb i'r cais:
 - ei bod "o blaid datblygu'r safle ond i dai y mae pobl leol yn medru ei fforddio";
 - bod angen diogelu'r safle gan ei bod bellach yn beryglus i'r cyhoedd;
- bod y cais yma wedi ei drafod yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio 9 Ebrill 2025, a bod yr Aelodau wedi penderfynu bod Panel Ymweld y De yn ymweld â'r safle i archwilio'r cais ymhellach;
- bod y Panel wedi ymweld â'r safle ar 16 Ebrill 2025;
- bod y Panel wedi nodi'r angen am erddi ar y tai fforddiadwy, a bod y cynlluniau am y gerddi bellach wedi eu derbyn;
- bod manylion i loches i ystlumod wedi'u derbyn;
- bod yr asiant wedi cadarnhau y byddai cerrig yr hen westy yn cael eu hail-ddefnyddio yn y tai newydd marchnad agored.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y canlynol:

- bod Cytundeb 106 yn sicrhau y byddai'r tai fforddiadwy:
 - yn cael eu cyfyngu i bobl leol eu rhentu, a bod y pris wedi clymu i mewn i brisiau lleol;
 - yn cael eu cynnig i bobl blwyf Bontddu'n gyntaf, ac yna i bobl o blwyfi cyfagos;
 - yn parhau i fod yn fforddiadwy;
 - yn cael eu hadeiladu cyn y tai marchnad agored;
- nad oedd y tai newydd yn uwch na'r gwesty presennol;
- bod asesiad wedi ei wneud parthed ffenestri'r tai a'u hadlewyrchu golau; barnwyd na fyddent yn adlewyrchu'n ormodol ac roedd y Swyddog Awyr Dywyll yn hapus gyda'r amodau;
- byddai'n rhaid i'r datblygwyr gyflwyno cynllun draenio i'r Awdurdod cyn dechrau ar y gwaith ar y safle.

Argymhellwyd – derbyn y cais.

Penderfynwyd: — derbyn yr Argymhelliad.

5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Adroddiadau Diweddar**

- 6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.
- 6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

8. **Plas Tan y Bwlch – Eiddo Prydles**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro argymhelliad i ofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad, "Plas Tan y Bwlch – Eiddo Prydles" o dan Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Adroddodd mai'r eithriad perthnasol i'r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

14. ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr awdurdod a oedd dal y wybodaeth honno)

Nododd nad oedd ffactorau o blaid datgelu.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn eithrio'r adroddiad, "Plas Tan y Bwlch – Eiddo Prydles".

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

RHAN 2

9. Plas Tan y Bwlch – Eiddo Prydles

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo

Adroddwyd:

- bod caban ar Brydles 900+ mlynedd wedi dod ar werth o fewn tir Plas Tan y Bwlch;
- bod y caban wedi ei leoli'n agos iawn at y ffordd fynedfa orllewinol, sef y brif fynedfa i loriau, bysiau a gwasanaethau brys (eglwyrwyd bod tro'r bont ar fynedfa ochr Maentwrog yn rhy dynn i gerbydau mawr neu hir);
- mai'r bwriad oedd prynu'r caban, dymchwel y strwythur presennol a gwella'r ffordd fynedfa;
- bod hwn yn gyfle euraidd i geisio gwella'r fynedfa honno – a hynny petai'r cais Loteri'n llwyddiannus neu beidio gan y byddai'n helpu gwerthiant;
- bod angen sêl bendith yr Aelodau ar benderfyniad o'r math yma.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a *nodwyd* y canlynol:

- na fyddai'r pryniant yn rhan o'r cais Loteri, ond fe fyddai'r gwaith dilynol;
- bod y Parc eisoes yn berchen ar un caban a bod opsiwn ganddo i'w werthu petai'n rhaid;
- dylid ei weld fel buddsoddiad ac nid fel gwariant.

Argymhellwyd: –

- (i) bod yr Aelodau'n ystyried y wybodaeth a gafwyd yn yr adroddiad ac yn rhoi sêl bendith i'r Awdurdod brynu prydles hirdymor y caban i alluogi gwella mynedfa Plas Tan y Bwlch.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:35



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 21 MAI 2025

5. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir

Cyflwynwyd:

- (1) NP2/16/442 - Creu llwybr troed drwy goetir gan gynnwys rhodfa bren ddyrchafedig, pontydd, arwyddion sy'n dangos pa ffordd i fynd (arwyddbyst/cyfeirbwyntiau), meinciau, paneli dehongli, lloches a 'Phortalŵ'. Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant, Garndolbenmaen LL51 9AX

Adroddwyd:

- bod Cyngor Cymuned Dolbenmaen wedi gwrthwynebu'r cais am nifer o resymau, gan gynnwys:
 - diffyg parcio
 - risg tân
 - gor-ddatblygiad yng nghefn gwlad
 - yr effaith negyddol y gallai gael ar bobl leol, diwylliant ac iaith yr ardal;
- byddai hawliau datblygu a ganiateid yn caniatáu i'r strwythurau gael eu codi am gyfnod o 28 diwrnod y flwyddyn. Roedd y cynnig yn ceisio caniatâd i'w cadw am ddim ond 2 ddiwrnod arall yn ychwanegol i hyn.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y canlynol:

- nad cais newid defnydd ydoedd, a byddai angen trwydded ar gyfer cynnal gwyliau (*festivals*), er enghraifft;
- nad oedd gwrthwynebiad i'r cais mewn egwyddor;
- nad oedd yn eglur ai menter busnes ydoedd ai peidio;
- nad oedd yn eglur pam fod y cais yn gofyn am ganiatâd i gadw'r strwythurau am 30 diwrnod y flwyddyn, sef am ddim ond 2 ddiwrnod yn ychwanegol i'r hyn a ganiateid heb unrhyw ganiatâd ychwanegol;
- nad oedd yn eglur a oedd holl ardal y fenter yn hygyrch i gadeiriau olwyn;
- dylid gofyn am ragor o wybodaeth cyn penderfynu'n derfynol;

Cynigiwyd: – gohirio'r penderfyniad i gael fwy o fanylion ynglŷn â'r cais.

Penderfynwyd: — **derbyn** y cynnig.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 25 Mehefin 2025

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

Swyddogion

Jon Cawley, G. Iwan Jones, Keira Sweeney, Jane Jones, Iona Roberts, David Pryce-Jones, Geraint Evans, Aled Lloyd, Richard Thomas, Eifion Jones.

Cynghorodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Elwyn Edwards.

Etholwyd Elwyn Edwards yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth

2. Is-gadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Nia Owen.

Etholwyd Nia Owen yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, a Mr Tim Jones.

Croesawodd y Cadeirydd Keira Sweeney, Cyfarwyddwr Cynllunio newydd y Parc i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

Nododd hefyd mai hwn fyddai cyfarfod Cynllunio olaf Brian Angell. Diolchodd iddo am ei wasanaeth dros yr wyth mlynedd diwethaf.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 21 Mai 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion

Eitem 4: Codwyd bod y cofnodion yn nodi i'r argymhelliad gael ei dderbyn, ond na gofnodwyd i un Aelod wrthwynebu'r argymhelliad. Eglurwyd na chaiff gwrthwynebiad ei gofnodi oni bai i'r Aelod ofyn am hynny'n benodol.

Yn dilyn hyn, gofynnodd y Cyngorydd Delyth Lloyd Griffiths i'w gwrthwynebiad i gais NP5/65/256B (dymchwel rhan o'r cyn-westy Neuadd Bontddu a chodi 5 tŷ marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 tŷ fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras wedi'i adeiladu o'r newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd) gael ei gofnodi'n swyddogol.

6. **Canllawiau Cynllunio Atodol: Rheoli'r defnydd o anheddau fel Cartrefi Gwyliau (ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Polisi Cynllunio.

Adroddwyd:

- bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi dod i rym ar Fehefin 1af 2025, ac mai elfen bwysig i sicrhau bod amcan ehangach gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gyflawni oedd paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol;
- mai diben y Canllawiau Cynllunio Atodol oedd cynorthwyo unigolion oedd yn cyflwyno ceisiadau cynllunio, a swyddogion cynllunio ac aelodau Awdurdod y Parc oedd yn penderfynu ar geisiadau cynllunio oedd yn ymwneud â newid defnydd prif gartrefi, ail gartrefi a lletyau gwyliau tymor byr;
- bod y nodyn canllaw yn un o gyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a fyddai'n darparu gwybodaeth fanylach bellach ar sut y byddai polisïau oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) (2016-2031) yn cael eu cymhwyso'n ymarferol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol;

Trafodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd* y canlynol:

- Diolchwyd i'r adran am eu holl waith;
- Pwysleisiwyd mai un ystyriaeth ymhlith eraill oedd y Cyfarwyddyd, a byddai'r ystyriaethau eraill yn parhau hyd yn oed petai'r canran o ail gartrefi a llety rhent tymor byr o fewn cymuned o dan y trothwy o 15% ;
- Cadarnhawyd bod modd ail-edrych mewn blwyddyn ar y canrannau o ail gartrefi a llety rhent tymor byr o fewn cymuned, i ystyried a ddylid newid y trothwy;
- Nodwyd y gallai ffigyrau ail gartrefi a llety rhent tymor byr godi a gostwng o fewn cymunedau unigol, ond y gobaith oedd y byddai'r nifer ar draws y Parc yn gostwng;
- Cytunwyd y dylid nodi'n eglurach pa fath, a faint, o wybodaeth a thystiolaeth dylai perchnogion ail gartrefi a llety rhent tymor byr gasglu a chadw.

Argymhellwyd – bod yr Aelodau'n:

- (i) mabwysiadu *Canllawiau Cynllunio Atodol: Rheoli'r defnydd o anheddau fel cartrefi gwyliau (ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr)* yn ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.
- (ii) dirprwyo'r hawl i Gyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau'r Awdurdod i wneud

unrhyw addasiadau fformadu a chywiriadau bach angenrheidiol cyn cyhoeddi.

(iii) cytuno fod y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu diweddaru'n flynyddol, gyda chanrannau wedi'u diweddaru o ail gartrefi a llety rhent tymor byr o gyfanswm y stoc tai o fewn pob ardal cyngor cymuned yn Atodiad B yr adroddiad.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.*

7. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

8. **Adroddiad Perfformiad Rheolaeth Datblygu – Ch3 A Ch4 2024/2025**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth.

Adroddwyd:

- bod y tîm wedi bod 50% yn is na'u capasiti staffio arferol yn ystod y cyfnod Chwarter 3 a Chwarter 4 2024/2025;
- bod swydd Swyddog Cynllunio wedi bod yn wag ers dechrau mis Mawrth 2025 a bod hyn wedi arwain at y Prif Swyddogion Cynllunio oedd yn weddill i fod dan bwysau aruthrol;
- bod y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau newydd wedi dechrau yn ei swydd ar 23 Mehefin;
- yr hysbysebwyd am hyfforddai graddedig i geisio lleihau'r pwysau yma ac y byddai Hyfforddai Graddedig Swyddog Cynllunio newydd yn dechrau tua diwedd mis Gorffennaf;
- bod gwelliannau wedi'u gwneud yn nau chwarter olaf 24/25, a bod cam da wedi'i gymryd i'r cyfeiriad cywir o ystyried yr heriau a wynebwyd.

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd* y canlynol:

- bod problem recriwtio trwy Gymru gyfan;
- bod cyngor yn cael ei roi cyn cyflwyno cais, ond bod llawer yn anwybyddu'r cyngor.

Argymhellwyd – bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad a chapasiti, a darparu unrhyw sylwadau.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.*

9. **Diweddariad ar Gydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cynllunio (Cydydffurfiaeth).

Adroddwyd:

- cefndir yr adroddiad a'r sefyllfa bresennol;
- bod yr adran gydymffurfiaeth wedi parhau i gynorthwyo Rheolaeth Datblygu i symud ceisiadau cynllunio yn eu blaen, ynghyd ag ymgymryd â dyletswyddau eraill, a bod hyn wedi effeithio ar adnoddau'r timau;
- bod cynnydd wedi bod o ran gwella targedau dangosyddion perfformiad;
- bod yr adran wedi llwyddo i gyrraedd y categori 'canolig' gyda dangosyddion Llywodraeth Cymru, er gwaetha'r pwysau ar adnoddau.

Argymhellwyd – bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.*

10. Adroddiadau Diweddaru

- 10.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

Adroddwyd:

- bod ymateb wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Priffyrdd ynglŷn â chais NP5/77/27K Y Garej, Talsarnau, eu bod yn edrych ar y cais;
- bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a wnaethpwyd yng nghais NP5/61/647A Ty'n y Gwter, Harlech.

- 10.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

11. Penderfyniadau a Ddirprwywyd

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

12. Penderfyniadau Apêl

- 1 (a) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i **ganiatáu apêl** gan Gwmni Rheilffordd Ffestiniog yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am wrthod rhoi caniatâd cynllunio am "Adeiladu adeilad gorsaf rheilffordd newydd ar y slab concrit sy'n bodoli", Adeilad Gorsaf Rheilffordd Beddgelert, Beddgelert LL49 0NF.

- 1 (b) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar Benderfyniad yr Arolygydd i **ganiatáu apêl** gan Gwmni Rheilffordd Ffestiniog yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) am ddyfarniad costau llawn, Adeilad Gorsaf Rheilffordd Beddgelert, Beddgelert LL49 0NF.

- 2 (a) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i **ganiatáu apêl** gan Charles Mador o Tremlett Mews Limited yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy LL44 2RQ.

Adroddwyd:

- bod amgylchiadau'r achos yn unigryw am ei fod yn ymwneud ag adeilad rhestredig, a'i fod yn benderfyniad y gellid dysgu ohono.

- 2 (b) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar Benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Charles Mador o Tremlett Mews Limited yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) am ddyfarniad costau llawn, Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy LL44 2RQ.

Adroddwyd:

- bod y penderfyniad i beidio â chaniatáu costau yn brawf fod yr amod a roddwyd yn rhesymol, ond am amgylchiadau arbennig yr achos.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 25 MEHEFIN 2025

7. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir

Cyflwynwyd:

- (1) NP2/16/442 – Creu llwybr troed drwy goetir i gynnwys llwybrau pren dyrchafedig, pontydd, cyfeirbyst, meinciau a phaneli dehongli. Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant, Garndolbenmaen LL51 9AX

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth

Adroddwyd:

- mai adroddiad atodol oedd hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y cais yn dilyn rhai cwestiynau a godwyd gan yr Aelodau;
- bod y cais wedi ei ddiwygio a bod yr ymgeisydd wedi penderfynu tynnu'r strwythurau dros dro o'r cais, a byddai'n defnyddio ei hawliau datblygu a ganiateir am uchafswm o 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr;
- bod lluniad Pont Bison wedi'i ddiwygio i ganiatáu mynediad gwastad heb risiau ar ac oddi ar y bont;
- nad oedd y llwybr newydd wedi'i fwriadu i fod yn llwybr cerdded i bob gallu ond i alluogi cysylltu dau Hawl Tramwy Cyhoeddus presennol;
- bod y paneli dehongli'n cydymffurfio ag amcanion Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- bod Coed Hendre Ddu'n rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru, menter a gefnogid gan Lywodraeth Cymru.

Cafwyd *Cyflwyniad* gan Mr Terry Thomas ar ran yr Ymgeisydd yn dadlau o blaid y cais.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** y cynnig.

- (2) NP4/29/527 – Adeiladu un annedd marchnad agored, Tir ger Tryfan, Penmachno. LL24 0YE

Cyflwynwyd adroddiad gan y Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod Cyngor Cymuned Penmachno yn cefnogi'r cais, ar yr amod bod yr annedd yn ddarostyngedig i feddiannaeth fforddiadwy lleol adran 106. Eglurwyd bod Penmachno wedi'i ddiffinio'n anheddiad eilaidd yn y Cynllun Datblygu ac felly nad oedd rhaid boddhau gofynion Adran 106 ar feddiannaeth fforddiadwy lleol a gellid ystyried caniatáu adeiladu annedd marchnad agored.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a *nodwyd* y canlynol:

- byddai nodyn cynghoriad yn cael ei roi bod rhaid cael draeniad cynaliadwy ac arwyneb mandyllog;

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** y cynnig.

- (3) NP5/50/532F – Dileu Amod 3 (Cyfyngiad ar adwerthu bwyd poeth oddi ar eiddo) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/50/532C dyddiedig 11/03/2016. Uned 2, Wharf Gardens, Aberdyfi. LL35 0EE.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am ei fod yn ymwneud ag adeilad oedd ym mherchnogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- mai tynnu'r amod yn unig oedd y cais;
- bod canolfannau eraill yn agos oedd eisoes yn cynnig bwyd a diod;
- na chaniateid defnyddio'r datblygiad at y dibenion a ganiateir y tu allan i'r oriau 09.00 yb i 11.00 yh.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** y cynnig.

- (4) NP5/53/130H – Inswleiddio a gosod cladin a phaneli solar newydd i Ganolfan Wardeiniaid APCE, gosod camerâu ANPR a Theledu Cylch Cyfyng (CCTV), a chodi giât mynediad newydd. Canolfan Wardeniaid a Maes Parcio Llyn Tegid, Y Bala. LL23 7SR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- gan fod y safle o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig roedd yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd priodol, a bod hyn wedi ei gwblhau gan yr awdurdodau ac ecolegwyr, a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno â'r Asesiad;

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a *nodwyd* y canlynol:

- bod darparu blychau i adar nythu yn rhan o'r cynllun;
- dylid hybu defnyddio coed lleol ar gyfer y cladin os yn bosibl, ac y byddai nodyn cynghoriad yn cael ei roi ar y cais.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd ynghyd â nodyn cynghoriad i ddefnyddio coed lleol ar gyfer y cladin.

Penderfynwyd: — **derbyn** y cynnig.

- (5) NP5/70/122A – Adnewyddu toiledau presennol a gosod cladin allanol newydd, adnewyddu lleoedd parcio presennol a chreu lleoedd newydd, gosod camerâu ANPR a CCTV, a gosod giât mynediad newydd. Maes Parcio Parc Cenedlaethol Eryri, Llanywer. LL23 7DA

Cyflwynwyd adroddiad gan y Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais yn cynnwys creu 92 o fannau parcio newydd a fyddai'n dod â reffeniw ychwanegol i'r Parc;
- y canfyddwyd ffyrdd posib y gallai llygredd effeithio ar Lyn Tegid. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd priodol a ddaeth i'r casgliad y gellid osgoi hyn petai'r datblygwyr a'r Awdurdod yn sicrhau eu bod yn defnyddio mesurau gwrth-llygredd tra'n datblygu'r safle.
- bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n hapus gyda hyn, a bod y caniatâd yn cynnwys nodyn cynghoriad gwrth-llygredd.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a *nodwyd* y canlynol:

- bod darparu blychau i adar ac ystlumod yn rhan o'r cynllun;
- byddai nodyn cynghoriad yn cael ei roi ar y cais yn hybu defnyddio coed lleol ar gyfer y cladin.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** y cynnig.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 3 Medi 2025

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Annwen Hughes, Louise Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson.

Swyddogion

G. Iwan Jones, Keira Sweeney, Iona Roberts, David Jones, Ben Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Delyth Lloyd Griffiths, Edgar Wyn Owen, Nia Owen, a Mr Wyn Thomas.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. Adroddiadau Diweddarau

5.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

5.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

Adroddwyd:

- bod yna bosibilrwydd y byddai cais NP5/59/495C, Tir ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

7. **Penderfyniadau Apêl**

- (1) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Mrs Helen Fenner yn erbyn Awdurdod Pare Cenedlaethol Eryri am wrthod rhoi caniatâd Cynllunio ar gyfer codi caban pren ar gyfer ymwelwyr/llety gwyliau, Waen Fechan, Llanbedr-y-Cennin, Conwy LL32 8UR.
- (2) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Caroline Evans yn erbyn hysbysiad gorfodaeth a gyhoeddwyd gan Awdurdod Pare Cenedlaethol Eryri (APCE), ar gyfer "heb ganiatâd cynllunio, newid defnydd sylweddol o'r tir o goetir agored i ddefnydd cymysg, sef coetir agored a lleoli carafân sefydlog at ddibenion preswyl gyda pharaffernalia preswyl cysylltiedig, tir ger Plas Gwynfryn, Llanbedr LL45 2NY.
- (3) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **ganiatáu apêl** gan Mr Alan Peter Francis a Mrs Susan Ann Francis yn erbyn penderfyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am wrthod rhyddhau rhwymedigaeth gynllunio, Maes Lledfan, Rhoslefain, Tywyn LL36 9NH.

Adroddwyd:

- bod rhwymedigaeth gynllunio oedd yn berthnasol i'r eiddo a'r apêl hon yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannaeth yr annedd gael ei chyfyngu i bersonau oedd yn cael eu cyflogi neu a gafodd eu cyflogi diwethaf mewn masnach, busnes neu broffesiwn rheolaidd mewn lleoliad o fewn radiws o 30 milltir o'r annedd, gan gynnwys dibynyddion personau o'r fath oedd yn byw gyda nhw, gwraig neu ŵr gweddwl, neu bersonau o'r fath;
- mai pwrpas y polisi yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri oedd ceisio bodloni anghenion tai cymunedau lleol, yn bennaf wrth ddarparu tai fforddiadwy;
- nad oedd y rhwymedigaeth yn cyfyngu meddiannaeth i bobl a oedd angen tai fforddiadwy arnynt, a bod gwerth yr eiddo yn sylweddol uwch na'r lefel yr oedd yr Awdurdod yn ei hystyried yn fforddiadwy;
- nad oedd y rhwymedigaeth felly (ym marn yr Arolygydd) yn parhau i gyflawni diben defnyddiol a dylid ei rhyddhau;
- ei fod yn dda bod yr Awdurdod wedi profi'r ddadl, a'i fod yn benderfyniad y gellid dysgu ohono.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 03 MEDI 2025

7. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd:

- (1) NP5/57AD872C – Caniatâd Hysbyseb i arddangos plac cofeb, Maes Parcio, Pwllpenmaen LL40 1YD.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor cynllunio oherwydd y byddai'r hysbyseb yn cael ei arddangos ar dir a oedd o fewn perchnogaeth Awdurdod Pare Cenedlaethol Eryri;

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (2) NP5/71/499A – Diwygio Amod 2 (Meddiannaeth Gweithiwr Amaethyddol) o Ganiatâd Cynllunio PEN.R/1246/P dyddiedig 19/07/1973 i amod annedd menter wledig, Derwen Gam, Llanuwchllyn LL23 7UN.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth

Adroddwyd:

- bod y safle y tu allan i gyfyngiadau anheddiad cymeradwy ac mewn lleoliad lle mae unedau preswyl newydd fel arfer wedi'u cyfyngu gan Bolisi G o Gynllun Datblygu Lleol Eryri a fabwysiadwyd i rai safleoedd lle dangoswyd bod angen hanfodol a phroffedig am yr annedd na ellir ei ddiwallu mewn unrhyw ffordd arall neu gan annedd mewn rhyw leoliad arall.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (3) NP5/75/46B – Newid defnydd tir i ganiatáu lleoli un gwerthwr bwyd a diod symudol (Dosbarth Defnydd A3) Maes Parcio, Tan-y-Coed, Esgairgeiliog SY20 9AT.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod gwrthwynebiad gan y cyngor cymuned;
- bod ardal y maes parcio wedi'i sgrinio'n dda gan goetir ac nad oedd yn weladwy o'r A487 na'r eiddo preswyl presennol i'r dwyrain.
- nad ystyriwyd y byddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau deiliaid yr eiddo hwn oherwydd sŵn, aflonyddwch ac arogleuon coginio oherwydd y pellter i'r eiddo a phresenoldeb sgrinio;
- nad oedd gan Ecolegydd Eryri unrhyw bryderon ecolegol.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a mynegwyd y canlynol:

- byddai angen caniatâd ar wahân i osod hysbyseb i'r gwerthwr bwyd a diod ar yr A487;
- ei fod yn lle tawel, gwledig, lle i fyfyrto; bod digon o lefydd manwerthu eisoes yn agos i'r maes parcio, nad oedd yn cynnig dim i bobl leol, a bod rhai pobl leol yn gwrthwynebu'r datblygiad;

- bod y cais yn sicrhau y byddai'n daclus, yn unol â gofynion y Parc, ac nad oedd dim o'i le ar gystadleuaeth.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd gydag amodau 2 a 3 wedi eu diwygio fel eu bod yn cyfeirio at y gwelliannau bioamrywiaeth sydd wedi eu derbyn.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 15 Hydref 2025

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamat Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

Swyddogion

Iwan Jones, Keira Sweeney, Iona Roberts, Aled Lloyd, David Jones, Geraint Evans, Eifion Jones.

Hefyd yn bresennol:

Mr Dafydd Tomos, Asiant Ymgeisydd Eitem 4.(3)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Meryl Roberts, a Mr Tim Jones.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 3 Medi 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Adroddiad Monitro Blynnyddol ar gyfer 2024-2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Polisi

Adroddwyd:

- cefndir yr adroddiad monitro, prif ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynnyddol am 2024-25, a'r camau nesaf;
- bod y ffigwr a roddwyd yn y rhaglen am y nifer o dai a dderbyniodd ganiatâd yn ystod 24/25 yn anghywir, ac mai 32 uned yn llai na'r flwyddyn flaenorol oedd y gwir ostyngiad, ac nid 17 fel yn y rhaglen;

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y canlynol:

- bod y broses o greu cynllun newydd wedi dechrau ac fe fyddai'r Awdurdod, fel rhan o'r broses, yn galw am safleoedd, a bod lle i annog tîrfeddianwyr i ddod ymlaen a chynnig safleoedd i'w datblygu.

Argymhellwyd: - bod Aelodau'r Awdurdod yn trafod a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Monitro Blynnyddol 2024-25, gydag unrhyw newidiadau ychwanegol a gyflwynwyd ac a gytunwyd gan yr aelodau.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad

6. Adroddiadau Diweddarau

- 6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.
- 6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

Adroddwyd:

- NP5/69/354G: Maes-y-Crynwyr, Llwyngwrl – byddai'r Swyddog Perthnasol yn diweddarau'r Aelod yn uniongyrchol wedi'r cyfarfod;
- NP5/59/495C: Tir ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog – disgwyliad y byddai'r cais yn dod gerbron y pwyllgor Cynllunio nesaf;
- NP5/58/363K: Nant Eos, Dyffryn Ardudwy (Trosi adeilad allanol yn dŷ marchnad agored a gosod uned trin carthion) – mai'r polisi yn yr achos yma oedd, gan ei fod yn drosiad, bod dewis i'w gyfyngu fel tŷ fforddiadwy neu dalu swm cymudol.
- bod Ceisiadau NP4/32/358A: Nant Llyn Glan Cors, Llanrwst a NP5/78/421A wedi gorfod aros am amser hir am ymateb, a byddai swyddogion yn ceisio ymateb gan yr asiantau perthnasol;
- NP5/65/256B: Neuadd Bontddu, Bontddu – bod cais diwygiedig wedi ei dderbyn ac fe fyddai adroddiad ar y cais diwygiedig hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

7. Penderfyniadau a Ddirprwywyd

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

Adroddwyd:

- NP5/58/100D: Caban, Coed y Bachau, Dyffryn Ardudwy (Amnewid caban presennol gyda thŷ deulawr ar wahân) - bod y caban presennol, a oedd yn dŷ preswyl cyfreithlon, yn cael ei ddymchwel a thŷ deulawr newydd yn cael ei adeiladu yn ei le.

8. Unrhyw Fater Arall

Holwyd am ddiweddariad ar Gastell Cidwm a chadarnhawyd y byddai swyddogion yn chwilio i sefyllfa bresennol yr eiddo.



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 15 HYDREF 2025

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd:

- (1) NP5/57/937Y – Codi 13 tŷ preswyl (Dosbarth Defnydd C3), Tir yn Uwch y Maes, Dolgellau. LL40 1GD.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod y cais yn un yr oedd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau yn ei ystyried yn Ddatblygiad Mawr;
- mai cam olaf datblygiad preswyl mwy ydoedd, un a oedd wedi datblygu mewn camau ers y 1980au;
- bod caniatâd wedi ei roi i adeiladu cyfanswm o 94 o dai a bod 69 wedi eu hadeiladu eisoes;
- mai anheddau preswyl marchnad agored gyda dosbarth defnydd C3, sef tŷ preswyl oedd yn cael ei ddefnyddio fel unig neu brif breswyl, oedd y tai arfaethedig;
- mai cais i newid dyluniad oedd y cais hwn, ac ystyriwyd bod y cais gwreiddiol – sef cais ar gyfer tai marchnad agored heb unrhyw rwymedigaethau tai fforddiadwy – yn parhau mewn grym; eglurwyd bod yn rhaid rhoi pwys sylweddol i hanes y safle a'r ffordd yr oedd wedi datblygu dros y blynyddoedd, ac na fyddai'r cynnig presennol i ddatblygu cam olaf yr ystâd yn wyriad o fwriad gwreiddiol y ceisiadau amlinellol; oherwydd hyn, byddai'n afresymol gofyn am ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer y cam datblygu olaf hwn.
- na nodwyd unrhyw effaith niweidiol sylweddol oedd yn groes i bolisiâu cynllunio lleol a chanllawiau cenedlaethol perthnasol ac ystyrid bod y cynnig yn dderbyniol;
- byddai'r datblygiad yn gyfraniad cadarnhaol at stoc dai'r farchnad agored, a byddai gosod amod i sicrhau defnydd C3 yn diwallu anghenion cymunedau lleol;
- na fyddai unrhyw niwed i gymeriad a chydbwysedd iaith y gymuned.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y canlynol:

- dylid sicrhau fod y waliau cynnal yn defnyddio cerrig lleol;
- bod y cynllun yn darparu lle i ddau gar i bob tŷ a bod y ffordd yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i lorïau biniau sbwriel;
- byddai 50 o goed yn cael eu plannu ar hyd y ffin;
- o ran safonau carbon bod y tai mewn lleoliad cynaliadwy ond bod y polisiâu cynllunio yn cael eu rheoli drwy'r gyfundrefn reolaeth adeiladu.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **cymeradwyo'r** cais gyda'r amodau a restrwyd gan ychwanegu amodau i sicrhau bod cerrig lleol yn cael eu defnyddio ar gyfer y waliau cynnal, a bod coed, gan gynnwys coed derw, yn cael eu plannu ar hyd y ffin.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (2) NP5/68/L178B – Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP5/68/L178 dyddiedig 16/03/22 i hepgor y simnai o'r estyniad, mewnosod 2 ffenestr a drws ychwanegol ar y drychiad ochr ac 1 ffenestr to ar y drychiad cefn, Bron Garnedd, Llanfrothen. LL48 6SW.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am mai cais gan aelod o staff yr Awdurdod ydoedd.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **cymeradwyo'r** cais gyda'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (3) NP5/75/272A - Codi un annedd marchnad agored, ac un annedd hunanadeiladu ar gyfer anghenion lleol fforddiadwy, gan gynnwys ffurfio mynediad i gerbydau, mannau parcio a throi a gwaith cysylltiedig (ailgyflwyniad), Tŷ Gwyn, Pennal.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais a bod y swyddogion cynllunio'n argymhell gwrthod y cais;
- mai'r bwriad oedd y byddai'r tŷ fforddiadwy yn "*intermediate-type housing*", ac y byddai disgownt yn y pris a fyddai'n ei wneud yn fforddiadwy ac a fyddai'n cael ei reoli trwy gytundeb cyfreithiol;
- bod Pennal yn anheddiad eilaidd o dan bolisi strategol SP C, a olygai ei fod yn anheddiad is lle gellid caniatáu datblygiadau tai i angen lleol o fewn y ffin datblygu;
- bod safle'r tai arfaethedig wedi ei leoli'r tu allan, ond yn gyfagos, i ffin yr anheddiad diffiniedig o Bennal, ac y gellid caniatáu datblygiad preswyl yn unig ar sail eithriad o dan bolisi DP 11 am dai fforddiadwy lle oedd yr angen wedi ei ddangos;
- byddai'r annedd marchnad agored yn dod o dan bolisiau tai cyffredinol, a byddai'n gyfystyr ag annedd newydd mewn lleoliad cefn gwlad agored, a fyddai'n groes i bolisiau cynllunio lleol a chenedlaethol;
- yr ystyrid yr annedd fforddiadwy'n rhy fawr i'w ystyried yn fforddiadwy, ac na ddangoswyd bod angen am dŷ fforddiadwy 4 ystafell wely.

Gwahoddwyd Mr Dafydd Tomos i roi cyflwyniad ar ran yr asiant. *Adroddodd:*

- fod perchennog y tir wedi cyflwyno'r cais ar ôl i nifer o drigolion lleol ddangos diddordeb mewn hunanadeiladu tai yn yr ardal;
- fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol er mwyn denu a chadw teuluoedd ifanc yn yr ardal;
- fod y ffin datblygu wedi ei bennu yn 2018 ac nad oedd mwy o le i ddatblygu o fewn y ffin bellach, a bod rhaid wrth rywfaint o hyblygrwydd yn y polisi;
- fod y nifer o dai a adeiladwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn Eryri yn annigonol i'r angen;
- byddai'r tai yma'n ychwanegiad cadarnhaol i bentref Pennal.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y canlynol:

- nad oedd gwrthwynebiad i'r datblygiad ar sail effaith gweledol y datblygiad, ond ar sail polisi ac egwyddor, ac na fyddai ymweliad safle yn ddefnyddiol yn yr achlysur yma;
- na fyddai penderfynu caniatáu'r cais yn gosod cynsail, ond fe allai cael ei weld yn gosod cynsail;
- bod yr Awdurdod wedi caniatáu datblygu y tu allan i ffiniau diffiniedig yn y gorffennol, ond tai fforddiadwy yn unig.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **gwrthod** y cais oherwydd:

1. fod datblygiad preswyl marchnad agored yn annerbyniol yng nghefn gwlad fel rhan o gynllun eithriad;
2. na ddangoswyd bod angen annedd fforddiadwy o'r raddfa hon.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 12 Tachwedd 2025

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

Swyddogion

Iwan Jones, Keira Sweeney, Ben Jones, Aled Lloyd, Eva Jones, Eifion Jones.

Hefyd yn bresennol:

Ms Sioned Edwards, Asiant Ymgeisydd Eitem 4.(1)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Jo Nuttall.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Adroddiadau Diweddarau**

- 5.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.
- 5.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

Adroddwyd:

- NP5/59/495C Tir ger Pont-yr-afon-gam, Llan Ffestiniog – *Esboniwyd* mai'r bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno'r cais i'r cyfarfod presennol ond na dderbyniwyd gwybodaeth angenrheidiol mewn pryd. Yr oedd y wybodaeth honno bellach wedi ei derbyn a'r bwriad felly oedd cyflwyno'r cais yng nghyfarfod mis Ionawr. Yng ngoleuni'r oedi a fu cyn cyflwyno'r cais awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol petai ymweliad safle yn cael ei drefnu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod hwnnw (yn hytrach nag ar ei ôl) rhag gorfod gohirio'r penderfyniad eto.

Argymhellwyd: – trefnu ymweliad safle i'r tir ger Pont-yr-afon-gam, i'r holl Aelodau, i'w drefnu rhywbryd cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Ionawr 2026

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- NP5/62/LB297B Capel Gwynfryn, Llanbedr – *Nodwyd* bod sgaffaldiau tu allan i'r adeilad ers amser a bod y mynediad i fynwent y capel yn beryglus.

Eglurwyd bod trafodaethau gyda'r ymgeisydd a'r asiant yn parhau, bod pensaer cadwraeth allanol yn edrych ar y cynlluniau a bod gwaith newid arnynt, a bod hyn wedi cymryd fwy o amser nag a ddisgwyliwyd.

6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:25

ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 12 TACHWEDD 2025

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd:

- (1) NP5/76/323U – Ymestyn y cyfnod amser ar gyfer defnyddio tir a gymeradwywyd o dan ganiatâd cynllunio NP5/76/323R dyddiedig 03/01/2024 tan 30ain Mehefin 2028, Tir yn Blaen Cefn, Penrhyndeudraeth. LL48 6NA.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau yn ei ystyried yn Ddatblygiad Mawr ac yn wyriad o bolisïau mabwysiedig Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- bod parhad y defnydd dros dro, mewn egwyddor, yn parhau i fod yn groes i bolisïau'r CDLI a fabwysiadwyd, ac yn wyriad o'r CDLI; serch hynny, roedd rhaid ystyried pob cais cynllunio ar ei rinweddau ei hun ac, yn yr achos hwn, roedd y swyddogion o'r farn bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn parhau a oedd yn cyfiawnhau parhad y defnydd dros dro am gyfnod cyfyngedig pellach, er mwyn sicrhau cwblhau'r Prosiect DEG a dadfudo wedi hynny.

Nodwyd:

- bod anghysondeb mewn cynnwys un sleid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cadarnhawyd mai'r gwir sefyllfa oedd mai:
 1. NP5/77/336B dyddiedig 24 Medi 2021 oedd rhif y Cais Cynllunio ar gyfer Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol (DEG) Eryri, a oedd yn cynnwys:
 - 1) Adeiladu tŷ pen twnnel dwyreiniol (gan gynnwys y cyfansoddyn adeiladu cysylltiedig), cyfansoddyn pen selio, a mynediad parhaol; a
 - 2) Cyfansoddyn pen selio (SEC) newydd i gysylltu'r ceblau tanddaearol a'r llinell uwchben.
 2. NP5/76/323R dyddiedig 03 Ionawr 2024 oedd y Cais Cynllunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni hyn, sef i gymeradwyo lletai byw dros dro oddi ar y safle a chyfleusterau cysylltiedig o dan ganiatâd cynllunio, darparu lletai i hyd at 100 o weithwyr nad oeddynt yn gweithio gartref, llawer ohonynt yn gontactwyr arbenigol oedd eu hangen ar y safle ar fyr rybudd neu yn ystod cyfnodau adeiladu estynedig;
 3. NP5/76/323U dyddiedig 18 Awst 2025 oedd y cais i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer defnyddio'r tir a gymeradwywyd o dan ganiatâd cynllunio NP5/76/323R tan 30ain Mehefin 2028

Gwahoddwyd Ms Sioned Edwards, Asiant yr Ymgeisydd i annerch yr Aelodau. Nododd:

- y bu oedi gyda dechrau'r gwaith tyllu'r twnnel am resymau tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd, a bod yr amserlen ar gyfer angen llety wedi newid yn sgil hynny;
- bod y safle bellach wedi bod yn gweithredu yn ddidrafferth ers rhai misoedd gyda bron i 100 o weithwyr ar y safle ar y pryd;
- bod yr ymgeisydd yn hyderus y byddai'r gwaith o dylu'r twnnel wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2026, fan bellaf, ac yn sicr o fewn y cyfnod amser y gofynnwyd amdano yn y cais.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 21 Ionawr 2026

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

Swyddogion

Iwan Jones, Keira Sweeney, Iona Roberts, Jane Jones, Aled Lloyd, Sophie Berry, Ben Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Mr Rhys Evans.

2. Datgan Diddordeb

Datganodd Mr Tim Jones ddiddordeb personol heb fod yn ddiddordeb oedd yn rhagfarnu am eitem 4 (3) (Cynllun cynhyrchu trydan dŵr ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog), am ei fod yn ymddiriedolwr i'r elusen, *Plantlife*, a oedd wedi gwrthwynebu'r cais.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. Diweddariad ar Lwyth Achosion Cydymffurfiaeth a Pherfformiad

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio (Cydymffurfiaeth)

Adroddwyd am y sefyllfa bresennol ynghylch llwyth achosion a pherfformiad cydymffurfiaeth:

- yn dilyn erlyniaeth lwyddiannus yn erbyn *Tyn y Pant*, Dyffryn Ardudwy, ni lwyddwyd i ymweld â'r safle i wirio cydymffurfio â hysbysiad gorfodaeth oherwydd tywydd anffafriol a salwch, ond bod ymweliad wedi ei drefnu;
- bod ymweliad wedi ei drefnu i *Blas Gwynfryn*, Llanbedr, i weld a oedd hysbysiad gorfodi ynghylch symud carafán preswyl wedi ei gyflawni;
- bod ymweliad â *Nannau*, Llanfachreth, ar ddechrau'r wythnos wedi datgelu nad oedd unrhyw waith atgyweiriol brys i'r to wedi ei gwblhau, a bod hyn oherwydd y tywydd anffafriol diweddar; bod contractwr lleol wedi'i benodi i gwblhau'r gwaith, a disgwyliad i'r gwaith ddechrau'r wythnos nesaf. Roedd y parti cysylltiedig yn ymwybodol o bwysigrwydd a brys y broblem ac yn awyddus i'r gwaith ddechrau;
- bod asiantau wedi bod mewn cyswllt â'r Awdurdod ynglŷn â *Chastell Cidwm* a bod cyfarfod wedi ei drefnu.

Nodwyd:

- bod y "system goleuadau traffig" a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru i feincnodi eu Dangosyddion Perfformiad mewn perthynas â mesur perfformiad cydymffurfio yn ddryslyd, ei fod yn anodd iawn craffu'r ffigyrau yn y fformat presennol, ac y byddai'n dderbyniol iawn cael y ffigyrau ar ffurf symlach a mwy dealladwy;
- bod swyddogion yn bwriadu ail-edrych ar sut dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r Awdurdod i'w wneud yn fwy eglur a dealladwy

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â chapasiti a pherfformiad a darparu unrhyw arsylwadau a sylwadau ar hyn.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

6. Adroddiadau Diweddarau

6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

Adroddwyd:

- NP5/58/363K – Trosi adeilad allanol yn dŷ marchnad agored a gosod uned trin carthion. Nant Eos, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX.
Bod y cytundeb drafft wedi ei arwyddo

6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

Adroddwyd:

- NP5/69/354G - Cais ôl-weithredol i osod fflw ar adeilad allanol (Ailgyflwyniad). Maes-y-Crynwyr, Llwyngwrl. LL37 2JQ
Byddai'r mater yn cael ei godi gyda'r swyddog perthnasol.
- NP5/62/LB297B - Trosi capel yn dŷ, newidiadau i'r fynedfa bresennol (Adleoli plin), a gosod uned trin carthion a draeniau cysylltiedig. Capel Gwynfryn, Llanbedr. LL45 2PA
Bod cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn gan yr Awdurdod

7. Penderfyniadau a Ddirprwywyd

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

8. Penderfyniadau Apêl

- (1) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Sunbourne Limited yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad i'r safle carafanau gwyliau i ddarparu (a) prif fynedfa newydd i'r safle gyda ffordd fynediad fewnol a man amwynder; ailddosbarthu carafanau gwyliau sydd eisoes wedi cael caniatâd, ac ailddatblygu o fewn y safle carafanau gwyliau presennol i ddarparu (b) 24 o garafanau gwyliau statig/cabanau gyda thirlunio; (c) 12 carafán gwyliau statig/cabanau yn lle tŷ annedd; a (d) 3 carafán gwyliau sefydlog yn lle siop yr hen safle. Gellir gosod hyd at 455 o garafannau gwyliau ar y safle carafanau gwyliau.
- (2) (a) (Apêl A)
Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **ganiatáu apêl** gan Mr. Gareth Roberts yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i roi cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i amodau ar gyfer trosi golchdy a gweithdy i ffurfio 2 uned wyliau a gosod ffenestri to, Llanfendigaid, Rhoslefain, Tywyn, Gwynedd LL36 9LS.
- (Apêl B)
Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **ganiatáu apêl** gan Mr. Gareth Roberts yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau ar gyfer trosi golchdy a gweithdy i ffurfio 2 uned wyliau a gosod ffenestri to ar y to blaen a'r to cefn, Llanfendigaid, Rhoslefain, Tywyn, Gwynedd. LL36 9LS.
- (2) (b) (Cais A am gostau)
Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod cais costau** gan Mr. Gareth Roberts am ddyfarniad llawn o gostau yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i roi caniatâd adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i amodau, Llanfendigaid, Rhoslefain, Tywyn, Gwynedd LL36 9LS.
- (Cais B am gostau)
Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod cais am gostau** gan Mr. Gareth Roberts am ddyfarniad llawn o gostau yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau, Llanfendigaid, Rhoslefain, Tywyn, Gwynedd LL36 9LS
- (3) (a) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Kath Sylvester yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd y llawr gwaelod o ddefnydd cymysg Preswyl C3 a bwyty A3, i ddefnydd Preswyl C3, Gwalia, Stryd Fawr, Harlech, Gwynedd. LL46 2YB.
- (3) (b) *Cyflwynwyd* adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Kath Sylvester yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd y llawr gwaelod o ddefnydd cymysg Preswyl C3 a bwyty A3, i ddefnydd Preswyl C3, Gwalia, Stryd Fawr, Harlech, Gwynedd. LL46 2YB

Daeth y cyfarfod i ben am 10:35



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 21 IONAWR 2026

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd:

- (1) NP3/12/9L - Gosod dau gyfleuster toiled cyhoeddus di-arllwys, un wedi'i orchuddio â phren, un wedi'i orchuddio â dur a wrinalau di-ddŵr allanol. Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Llyn Cwellyn, Rhyd Ddu. LL54 7YT.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Swyddog Cynllunio (Hyfforddai Graddedig) - Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am mai cais gan APCE ydoedd

Nodwyd:

- byddai'r toiledau'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn:

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (2) NP5/53/AD8N - Caniatâd Arddangos Hysbyseb am sgrin arddangos ddigidol, Co-op Store, 78-86, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AD.

Cyflwynwyd adroddiad gan Ms Sophie Berry

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd bod y Cyngor Cymuned wedi mynegi barn groes i'r argymhelliad, yn seiliedig ar resymau cynllunio cadarn, a dderbyniwyd o fewn y cyfnod ymgynghori;
- byddai'r sgrin yn rhydd-sefyll, wedi'i gosod yn ôl o'r ffenest, a'i hanner uchaf yn sgrin arddangos ddigidol;
- byddai dwyster llwyrch y sgrin yn ymateb i lefel y goleuni amgylchol: byddai'n goleuo pan fyddai'n oleuach tu allan (wedi ei gyfyngu i uchafbwynt o 700 Candela y metr sgwâr) ac yn pylu pan fyddai'n tywyllu tu allan.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (3) NP5/59/495C – Cynllun cynhyrchu trydan dŵr arfaethedig i gynhyrchu hyd at 600kW yn Afon Cynfal, i gynnwys llwybr pibelli, cored mewnllif, pwll echdynnu, llifddor o dan y ddaear (tua 1.2km), adeilad tyrbîn, adeilad mesuryddion, newidiadau i'r mynediad presennol ac ail-osod lleoli mynedfa priffordd bresennol, ardaloedd gosod i lawr, compownd adeiladu dros dro, gwyrriad llwybr troed dros dro a chysylltiad pŵer trydan uwchben ac o dan y ddaear i'r grid cenedlaethol (tua 600m) (Ail-gais). Tir ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog.

Adroddwyd, gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau:

- bod yr Awdurdod wedi derbyn nifer helaeth o sylwadau ar y cais yn ddiweddar iawn;

- bod dros 1300 o sylwadau wedi eu derbyn gan Gymdeithas Eryri, sylwadau oedd wedi eu cyhoeddi ar wefan y Gymdeithas ond heb eu hanfon at yr Awdurdod tan ar ôl cyhoeddi rhaglen y Pwyllgor;
- ei fod yn hanfodol fod pob sylw ar unrhyw gais yn cael ystyriaeth lawn cyn dod i benderfyniad ar y cais hwnnw;
- na fu'n bosibl i swyddogion ystyried yr holl sylwadau mewn pryd oherwydd yr amser byr a fu ers derbyn y sylwadau;
- ei bod felly'n cynnig bod y Pwyllgor yn **gohirio** trafod y cais i gyfarfod diweddarach.

Nodwyd:

- petai rhagor o sylwadau'n cael eu derbyn ar ôl y cyfarfod presennol, byddai hwythau hefyd yn cael eu hystyried a byddai diweddariad llafar yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf cyn trafod y cais.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **gohirio** trafod y cais er mwyn i swyddogion allu ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn iawn ac i addasu'r adroddiad fel bo'r angen cyn ei gyflwyno eto i gyfarfod diweddarach.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (4) NP5/59/814A – Newid defnydd o dŷ annedd C5 i dŷ annedd (C5) a llety i'w osod tymor byr masnachol (C6) Garreg Lwyd, Bont Newydd, Ffestiniog LL41 4PT.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio - Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor oherwydd gwrthwynebiad gan Gyngor Tref Ffestiniog, yn groes i argymhelliad y swyddog, ond:
- bod yr eiddo wedi'i leoli mewn man anghysbell;
- mai 8% o dai o fewn plwyf Ffestiniog oedd yn ail gartrefi;
- na fyddai'r newid defnydd yn arwain at golled sylweddol o dai parhaol, ac na fyddai unrhyw golled i'r stoc tai fforddiadwy / lleol.

Gwahoddwyd Ms Maggie Francis, Asiant yr Ymgeisydd, i annerch y cyfarfod.

Nododd:

- fod y tŷ wedi bod yn eiddo i'r un teulu er 1952;
- byddai gallu rhentu'r tŷ allan yn cynorthwyo cynnal a chadw'r tŷ;
- gan fod y tŷ eisoes yn ail dŷ na ddylai'r cais fod yn un dadleuol.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 25 Chwefror 2026

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.

Swyddogion

Iwan Jones, Keira Sweeney, Iona Roberts, Aled Lloyd, Ben Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Louise Hughes, Einir Wyn Williams, Ifor Glyn Lloyd, Salamat Fada a Naomi Luhde-Thompson.

Adroddodd y Cadeirydd fod Louise Hughes wedi rhoi aren i'w merch yn ddiweddar, ei bod wedi dychwelyd gartref bellach ac yn cryfhau'n araf. Cytunwyd anfon cyfarchion ati ar ran yr Aelodau i ddymuno gwellhad buan iddi.

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi

Eitem 4(1): NP3/12/9L. Nodwyd bod y disgrifiad yn y cofnodion yn anghywir, ond bod y disgrifiad yn y cais gwreiddio yn gywir: "Gosod dau gyfleuster toiled cyhoeddus **heb unrhyw ollyngiad**" (*zero discharge*) oedd yn gywir, ac nid "Gosod dau gyfleuster toiled cyhoeddus **di-arllwys**" (*non-flush*).

4. **Ail benodi'r Fforymau Mynediad Lleol erbyn Ebrill 2026**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Adroddwyd:

- bod yr Awdurdod wedi sefydlu dau Fforwm Mynediad Lleol ym mis Ebrill 2002, un ar gyfer gogledd y Parc Cenedlaethol ac un ar gyfer y de;
- bod yn rhaid i'r aelodaeth fod yn gytbwys rhwng rheolaeth tir a diddordebau hamddena, a bod angen i'r holl aelodau ddangos ymrwymiad i wella mynediad i gefn gwlad;
- nad oedd unrhyw grŵp diddordeb (heb law am fuddiannau pobl anabl) i gael cynrychiolaeth uniongyrchol ar Fforwm;
- bod aelodaeth y Fforymau'n parhau am 3 blynedd a bod rhaid ymgymryd â'r broses o ailbenodi aelodau i'r Fforymau erbyn Ebrill 2026;
- mai Mr Tim Jones oedd Aelod APCE ar Fforwm Mynediad y Gogledd, ac mai Cyng. John Pughe Roberts oedd Aelod APCE ar Fforwm Mynediad y De;
- bod angen penodi 4 Aelod i fod ar banel dethol i ystyried ceisiadau ar gyfer aelodaeth o'r Fforymau.

Nodwyd:

- bod gan Tim Jones a John Pughe Roberts brofiad o'r Fforwm, a'u bod eisoes yn deall y broses, ac y byddai'n fanteisiol eu cael ar y panel dethol oherwydd hynny;

Gwirfoddolodd y Cynghorwyr Delyth Lloyd Griffiths a Meryl Roberts i fod ar y panel dethol.

Cynigiwyd: – bod y Pwyllgor yn:

- i. cymeradwyo'r broses a'r amserlen ar gyfer ail benodi'r Fforymau Mynediad Lleol;
- ii. penodi panel dethol o bedwar aelod o APCE i ystyried ceisiadau ar gyfer aelodaeth o'r Fforymau, sef Mr Tim Jones a'r Cynghorwyr John Pughe Roberts, Delyth Lloyd Griffiths a Meryl Roberts.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau**

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Adroddiadau Diweddarau**

- 6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.
- 6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 25 CHWEFOR 2026

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau

Cyflwynwyd:

- (1) NP5/70/1C - Adeiladu estyniad ochr unllawr, Tŷ Isaf, Llangywer, Gwynedd LL23 7DA.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Swyddog Cynllunio (Hyfforddai Graddedig) - Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- y byddai'r cofnod (ar dudalen 12 o'r rhaglen) am ymgynghori gyda "chynghorydd lleol" yn cael ei ddileu;
- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am bod y cais wedi cael ei wrthwynebu gan y Cyngor Cymuned ar sail:
 - y byddai'r balconi yn difetha cymeriad bwthyn lleol nodweddiadol,
 - nad oedd balwstradau dur yn adlewyrchu nodweddion pensaernïol lleol, a
 - bod to fflat yn anaddas mewn ardal lle oedd hi'n bwrw glaw yn aml.
- mewn ymateb:
 - nad oedd Polisiâu Datblygu 1 a 15 yn gwahardd balconïau lle roeddynt wedi'u cynllunio'n briodol ac nad oeddynt yn niweidio cymeriad yr annedd na'r dirwedd;
 - bod y balwstradau dur yn cyd-fynd â rhai'r balconi presennol, gan sicrhau cysondeb gweledol ac osgoi cyflwyno deunyddiau gwahanol;
 - nad oedd polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwahardd toeau fflat lle roeddynt wedi'u cynllunio a'u lleoli'n briodol: byddai'r to wedi'i guddio i raddau helaeth gan strwythur y balconi uwchben ac ni fyddai'n amlwg yn weledol;
 - bod materion oedd yn ymwneud â pherfformiad draenio yn cael eu trafod drwy Reoliadau Adeiladu yn hytrach na pholisi cynllunio, ac na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai ffurf arfaethedig y to yn arwain at niwed i gymeriad neu swyddogaeth yr adeilad;
 - na ystyrid bod y gwrthwynebiadau a godwyd yn cael eu cefnogi gan bolisi'r Cynllun Datblygu ac nad oeddynt yn cyfiawnhau gwrthod y cais.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

- (2) NP5/73/351C - Adnewyddu a gosod system siffon newydd, Llyn Mair, Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3AO.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cynllunio - Rheolaeth Datblygu

Adroddwyd:

- bod y cais wedi dod gerbron y Pwyllgor am mai cais gan APCE ydoedd;
- bod effaith o ganlyniad i lifogydd trwm wedi cael ei glustnodi yn yr ardal yn dilyn sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- mai gwaith cymharol bychan ydoedd ac na fyddai effaith gweledol iddo.
- *Argymhellwyd:* – bod Aelodau'r Awdurdod yn **RHOI caniatâd** i'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a restrwyd.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.



COFNODION
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 25 Mawrth 2026

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamat Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.

Swyddogion

Iwan Jones, Keira Sweeney, Jane Jones, Aled Lloyd, Dafydd Roberts, Ben Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall.

2. **Datgan Diddordeb**

Dim

3. **Cofnodion**

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2026, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Adroddiadau Diweddarau**

4.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

4.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy:

(1) NP5/59/495C – Cynllun cynhyrchu trydan dŵr arfaethedig, Tir ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog

Adroddwyd:

- bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar p'un ai ddylai benderfynu ar y cais neu ei anfon yn ôl at yr Awdurdod;
- bod gan unrhyw drydydd parti'r hawl i ofyn i'r Llywodraeth ystyried galw cais i mewn;
- byddai'r Llywodraeth yn ymateb yn ysgrifenedig gan roi ei resymau am ei benderfyniad.

5. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

6. **Penderfyniadau Apêl**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau ar benderfyniad yr Arolygydd i **wrthod apêl** gan Sian Kohring yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer “Addasu adeiladau fferm segur i ffurfio 2 uned gosod gwyliau tymor byr ynghyd â gosod gwaith trin pecynnau”, Llwyneinion Fechan, Dyffryn Ardudwy LL44 2HX.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:10



**COFNODION
PWYLLGOR SAFONAU**
DYDD GWENER 11 EBRILL 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen (*ex officio*);

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Aelodau Annibynnol

Mr. Martin J. Hughes, Mr. Mark Jones;

Swyddogion

Iwan Jones, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yn rhaid ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn ymddeoliad y cyn-gadeirydd, Mrs Sharon Warnes.

Enwebwyd ac *etholwyd* Mr Martin Hughes yn Gadeirydd.

Yn dilyn, gan fod yr Is-gadeirydd nawr wedi ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor roedd angen ethol Is-gadeirydd

Enwebwyd ac *etholwyd* Mr Mark Jones yn Is-gadeirydd.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Nodwyd: gan ein bod heb benodi eto i'r swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol bod Ms Naomi Luhde-Thompson wedi cael ei gofyn i beidio â mynychu'r cyfarfod i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o aelodau.

3. Datgan Budd

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 20 Medi 2024.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- Croesawodd y Dirprwy Brif Weithredwr (DBW) y Cynghorydd Nia Owen i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau;
- Adroddodd y DBW fod cyfweiliadau wedi'u cynnal i benodi Aelod Annibynnol newydd i'r Pwyllgor yn dilyn ymddeoliad Mrs Sharon Warnes; bod person wedi'i enwebu yn dilyn y cyfweiliadau hynny, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn argymhell ei benodi i'r swydd;
- Adroddodd ei fod wedi methu mynychu Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol a oedd wedi'i gynnal ym mis Ionawr;
- Adroddodd fod eitem wedi codi mewn Pwyllgor Cynllunio diweddar lle defnyddiodd Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ollyngiad cyffredinol a ganiatawyd iddynt gan y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod 20 Medi 2024 i gymryd rhan yn y trafodaethau a'r penderfyniad. Methwyd â hysbysu'r Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod y byddai'r aelodau yn defnyddio'r gollyngiad ond addawodd y byddai recordiad o'r cyfarfod yn cael ei anfon at yr Aelodau Annibynnol. Adroddodd y Cynghorydd Nia Owen ei bod wedi elwa o gael y gollyngiad a'i bod yn falch ei bod wedi gallu cyfrannu at y drafodaeth.

5. **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**

Adroddwyd: y materion y mae'n rhaid eu hadrodd i'r Awdurdod a'r cynnig drafft o'r materion a fyddai'n cael eu cyflwyno.

Trafodwyd:

1. Mewn ymateb i gwestiwn a oedd yn gofyn ai mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd yn unig y paratoid yr adroddiad esboniodd y DBW fod y cyfarfod presennol yn gyfle i'r holl bwyllgor drafod yr adroddiad ac i gynnig gwelliannau iddo, gan ei fod mewn ffurf ddrafft yn unig ar y pryd.
2. Bod yr adroddiad drafft yn nodi "na fu unrhyw achosion yn ystod y flwyddyn lle mae gweithdrefn Datrysiaid Lleol yr Awdurdod wedi'i rhoi ar waith", ond bod cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau (20.09.24) yn nodi, "nad oedd gan yr Awdurdod Weithdrefn Datrys Lleol". Esboniodd y DPW eu bod yn sôn am ddau beth gwahanol: bod y cofnodion yn sôn am gwynion cyffredinol a wneid i'r Awdurdod a bod yr adroddiad yn sôn am anghydfodau mân rhwng Aelodau â'i gilydd. Cydnabu fod y derminoleg yn debyg ac felly'n ddryslyd ac addawodd ddiwygio'r adroddiad i'w wneud yn eglurach.

Argymhellwyd:—

1. Trafod cynnwys yr adroddiad.
2. Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 4 uchod yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau/diwygiadau y gallai'r Pwyllgor Safonau ddymuno eu gwneud iddo.

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

6. **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau**

Nodwyd:

- nad oedd Datganiad o Fuddiannau'r cyn-aelod June Jones ar y Wefan, ond

esboniwyd bod ei manylion wedi eu tynnu oddi ar y Wefan am nad oedd yn Aelod bellach;

- mai am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 oedd y datganiadau o ddiddordeb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ac nid rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 fel roedd y rhaglen yn dweud;
- bod dyddiad gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau yn anghywir ar un ffurflen a bod angen sicrhau bod yr holl ffurflenni'n gyfoes a'r ffurflenni cywir yn cael eu defnyddio.

7. **Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol – Dydd Llun 27 Ionawr 2025**

Adroddodd y Cadeirydd:

- ei fod wedi derbyn cofnodion Pwyllgor y Fforwm Safonau Cenedlaethol yn ddiweddar a'u bod wedi eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Safonau bellach;
- fod y cyfarfod wedi trafod llawer o faterion, a'i fod wedi bod yn gyfarfod buddiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:40



COFNODION
PWYLLGOR SAFONAU
DYDD GWENER 19 MEDI 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru
Ms Naomi Luhde-Thompson

Aelodau Annibynnol
Mr Mark Jones, Mr Robert Gwilym Lewis;

Swyddogion
Iwan Jones, Bethan Hughes, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

Croesawodd Mr Robert Gwilym Lewis i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

1. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod yn rhaid ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn ymddeoliad y cyn-gadeirydd, Mr Martin J Hughes, wedi iddo gwblhau ei ail dymor fel Aelod Annibynnol.

Enwebwyd ac **etholwyd** Mr Mark Jones yn Gadeirydd.

Esboniwyd, gan fod yr Is-gadeirydd wedi ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor roedd angen ethol Is-gadeirydd.

Enwebwyd ac **etholwyd** Mr Robert Gwilym Lewis yn Is-gadeirydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor yn parhau i fod yn brin o un aelod annibynnol, a bod y swydd eisoes wedi cael ei hysbysebu.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Nodwyd: gan fod y Pwyllgor yn brin o un Aelod Annibynnol, bod y Cynghorydd Elfed Roberts wedi tynnu nôl rhag mynychu'r cyfarfod i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o aelodau.

Ymddiheurodd y Cadeirydd hefyd y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

Nodwyd na fyddai cworwm pan adawai'r Cadeirydd ac, oherwydd hyn, penderfynwyd newid trefn y cyfarfod a rhoi sylw i'r eitemau pwysicaf yn gyntaf.

3. **Datgan Budd**

Datganwyd: bod gan y Cynghorydd Nia Owen ddiddordeb personol yn unig yn eitem 7, gan ei bod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Conwy.

4. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- Cytunwyd y dylid anfon llythyr o ddiolch at Mr Martin Hughes ar ei ymddeoliad o'r Pwyllgor Safonau.

5. **Enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i benodi tri Aelod a dau ddirprwy aelod i'r Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl.

Adroddwyd:

- bod yn rhaid i'r Pwyllgor Safonau ystyried aelodaeth y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl yn flynyddol yn dilyn CCB yr Awdurdod;
- bod y cylch gorchwyl hefyd yn darparu, wrth benodi aelodau ar y Panel, y byddai'r Pwyllgor Safonau yn ystyried yr angen am gynrychiolaeth briodol o ran rhywedd;
- i'r Pwyllgor, ar 20 Medi 2024, benodi Mr Martin J. Hughes, Mr Mark Jones, a'r Cynghorydd Elfed Roberts yn Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl a phenodi'r Cynghorydd Nia Owen a Ms Naomi Luhde-Thompson yn aelodau eilyddol / dirprwyol.

Argymhellwyd:— Penodi tri aelod a dau aelod wrth gefn / eilydd o aelodaeth y Pwyllgor Safonau i eistedd fel aelodau o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl.

Penderfynwyd:— penodi Mr Mark Jones, a'r Cynghorwyr Elfed Roberts a Nia Owen yn Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl a phenodi Ms Naomi Luhde-Thompson a Mr Robert Gwilym Lewis yn aelodau eilyddol / dirprwyol.

7. **Caniatáu Goddefebau**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn argymhell bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu gollyngiad cyffredinol i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Nodwyd:

- bod y Pwyllgor Safonau, yng nghyfarfod 20 Medi 2024, wedi penderfynu caniatáu goddefebau ar gyfer Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd ac i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w galluogi i gymryd rhan lawn wrth benderfynu ar faterion eu cynghorau eu hunain am gyfnod hyd at 31ain o Ragfyr 2025 oni byddai'r cyfnod yn cael ei ymestyn gan y Pwyllgor Safonau cyn 31 Rhagfyr 2025;
- y byddai'r cyfnod hwn yn dod i ben cyn i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod nesaf ac ei fod yn bryd ystyried y mater ymhellach;
- bod caniatáu goddefebau yn rhwystro problemau cworwm rhag codi mewn

cyfarfodydd yn ymwneud â materion cynghorau Gwynedd a Chonwy;

- bod y drefn wedi gweithio'n dda yn y gorffennol ond ei fod yn bwysig ei adolygu'n rheolaidd;
- ei fod wedi ei ddefnyddio un waith yn ystod y 12 mis blaenorol lle defnyddiodd Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ollyngiad cyffredinol a ganiatawyd iddynt gan y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod 20 Medi 2024 i gymryd rhan yn y trafodaethau a'r penderfyniad. Methwyd â hysbysu'r Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod y byddai'r aelodau yn defnyddio'r gollyngiad ond cafodd recordiad o'r cyfarfod ei anfon at yr Aelodau Annibynnol.

Argymhellwyd:—

1. Caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd am gyfnod hyd at 31ain o Ragfyr 2026 oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach trwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31ain o Ragfyr 2026.
2. Caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyfnod hyd at 31ain o Ragfyr 2026 oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach drwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31ain o Ragfyr 2026.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad

6. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod yr Ombwdsman wedi derbyn un gŵyn yn ymwneud â Pharciau Cenedlaethol Cymru yn ystod 2024-25, ond nad oedd yn ymwneud â Pharc Cenedlaethol Eryri.

Nodwyd:

- nad oedd Aelodau'r Parc yn cael hyfforddiant penodol ar y Cod Ymddygiad, ond bod gwahoddiad i unrhyw aelod godi unrhyw fater gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Cynigiwyd:

- dylid anfon gwybodaeth am yr achos a ddaeth gerbron yr Ombwdsman at yr Aelodau, a defnyddio'r cyfle i gynnig hyfforddiant pellach iddynt.

Argymhellwyd:—

1. nodi cynnwys yr Adroddiad;
2. anfon gwybodaeth am yr achos a ddaeth gerbron yr Ombwdsman at Aelodau'r Awdurdod, a chynnig hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad iddynt.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad

8. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar gŵynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn 2024/25.

Adroddwyd:

- y nifer a natur y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd ynghyd â'r ymatebion a roddwyd;
- bod tair cwyn a dderbyniwyd yn ymwneud â thorri'r Ddeddf Diogelu Data, a bod hyn yn rhywbeth i gadw golwg arno i weld a fyddai angen rhagor o hyfforddiant ar staff.

Nodwyd:

- mai braf oedd gweld mai nifer bychan o gŵynion yn unig a dderbyniwyd, a bod pob un wedi ei hymchwilio'n llawn ac wedi'i ymateb o fewn y terfynau amser priodol.

Argymhellwyd:— nodi cynnwys yr Adroddiad.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad

9. **Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau – Dydd Llun 23 Mehefin 2025**

Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd 23 Mehefin 2025.

Adroddwyd:

- bod Mr Martin Hughes, cyn-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu'r cyfarfod, ond bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi methu â'i fynychu, a bod y cofnodion yn cael eu cyflwyno fel ag yr oeddynt er gwybodaeth;

Nodwyd:

- dylid anfon at y Fforwm Cadeiryddion yn ei hysbysu o benodiad Mr Mark Jones yn Gadeirydd newydd i'r Pwyllgor Safonau a gofyn iddynt ei wahodd i'w cyfarfodydd o hyn allan.

Argymhellwyd:— nodi'r cofnodion er gwybodaeth.

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad

Daeth y cyfarfod i ben am 14:45



**COFNODION
PWYLLGOR SAFONAU**
DYDD GWENER 27 MAWRTH 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen (*ex officio*);

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Ms Naomi Luhde-Thompson

Aelodau Annibynnol

Mr Mark Jones (Cadeirydd), Mr Robert Gwilym Lewis;

Swyddogion

Iwan Jones, Bethan Hughes, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Nodwyd: gan fod y Pwyllgor yn brin o un Aelod Annibynnol, bod y Cynghorydd Nia Owen wedi tynnu nôl rhag mynychu'r cyfarfod i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o aelodau.

2. **Datgan Budd**

Dim.

3. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Medi 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:

➤ **Eitem 1: Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd -**

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor yn parhau i fod yn brin o un aelod annibynnol; fod y swydd wedi ei hysbysebu ond mai un cais yn unig a dderbyniwyd ac nad oedd y person hwnnw'n gymwys i gael y swydd (am ei fod yn aelod o gyngor cymuned); fod y swydd ar fin cael ei hysbysebu eto a byddai swyddogion gwasanaethau democrataidd cynghorau siroedd Gwynedd, Conwy a Môn yn cael eu hysbysu o'r swydd er mwyn iddynt basio'r hysbyseb ymlaen at eu Haelodau Annibynnol nhw.

- *Eitem 5: Enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl* – Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau hynny a fynychodd y diwrnod hyfforddi ar Werthuso Swydd ar 8 Hydref ac i'r sesiwn ar gynnal Apêl Gwerthusiad a gynhaliwyd ar 15 Hydref;
- *Eitem 6: Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru* – Cadarnhaodd fod gwybodaeth am yr achos a ddaeth gerbron yr Ombwdsman wedi ei hanfon at Aelodau'r Awdurdod, ynghyd â chynnig o hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad;
- *Eitem 9: Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau* – Cadarnhaodd fod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau wedi ei hysbysu o benodiad Mr Mark Jones yn Gadeirydd newydd y Pwyllgor Safonau.

4. **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- cefndir y ddyletswydd statudol a'r hyn y bwriedid ei gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

Nodwyd:

- bod y Cadeirydd yn fodlon cyflwyno'r adroddiad i'r CCB;
- dylid ychwanegu'r ffaith fod aelodau'r pwyllgor wedi mynychu'r hyfforddiant ar Apeliadau Graddio Statws Sengl at yr adroddiad.

Argymhellwyd:–

1. Trafod cynnwys yr adroddiad.
2. Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 4 uchod yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau/diwygiadau y gallai'r Pwyllgor Safonau ddymuno eu gwneud iddo.

Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad

5. **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod y nifer o ddatganiadau o fuddiannau'n is nag arfer a bod hyn o bosib oherwydd bod nifer y ceisiadau cynllunio wedi gostwng.

Argymhellwyd:– nodi'r adroddiad, er gwybodaeth

Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad

6. **Adolygu Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrobwro a Llygredigaeth**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- cefndir creu'r polisi a'r angen i'w adolygu

Nodwyd:

- bod y polisi drafft yn hawdd i'w ddarllen a bod yr enghreifftiau oedd yn yr adroddiad yn gymorth mawr.

Argymhellwyd:—

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddarau sydd wedi'i atodi.
2. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

7. **Adolygu Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r un diwethaf;
- bod enghreifftiau wedi eu hychwanegu i'r adroddiad gwreiddiol ym mhwyntiau 3.3 a 3.4 i egluro'r termau ymhellach;
- bod rhai enwau a thermau wedi eu cysoni yn y diweddariad.

Nodwyd:

- gellid cysylltu â'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol petai bryder gan rywun am unrhyw agwedd o'r polisi.

Argymhellwyd:—

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddarau sydd wedi'i atodi
2. Cymeradwyo'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

8. **Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau – Dydd Llun 26 Ionawr 2026**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar gyfarfod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd 26 Ionawr 2026 gan y Cadeirydd.

Adroddwyd:

- bod Mr Mark Jones, cadeirydd y Pwyllgor Safonau, wedi mynychu'r cyfarfod;
- nad oedd cofnodion y cyfarfod wedi eu dosbarthu hyd yma ond y byddant yn cael eu rhannu ymhllith yr aelodau unwaith byddant wedi eu derbyn;
- ei fod yn gyfarfod cynhyrchiol, ond nad oedd popeth a drafodwyd yn berthnasol i'r Awdurdod.

Argymhellwyd:— nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

*Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad*

9. **Unrhyw Fusnes Arall**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd am gyfarfod ag ef i'w gyflwyno i'r swydd o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Nododd hefyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor Safonau i Iwan Jones, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Diolchodd iddo am ei holl waith dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:25



COFNODION
PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 09 GORFFENNAF 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamat Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, G. Iwan Jones, Keira Sweeney, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Gina Galluccio, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Luned Fôn Jones (Archwilio Mewnol), Bleddyn Rhys (Archwilio Mewnol)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Elfed Powell Roberts.

Etholwyd Elfed Powell Roberts yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-gadeirydd

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Annwen Hughes.

Etholwyd Annwen Hughes yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd bod yr Awdurdod yn parhau i aros am arweiniad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddwy eitem oedd ar y daflen a dylid eu cadw fel ag yr oeddynt.

Argymhellwyd: – cadw'r ddwy eitem ar y daflen fel ag yr oeddynt.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Adroddwyd:

- ei bod yn ofynnol yn y sector gyhoeddus i'r Pennaeth Archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- bod yr Archwiliwr Mewnol o'r farn fod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith cadarn o reolaeth fewnol; bod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan;
- bod tri darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2023/24, sef:
 1. Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio
 2. Cefnogaeth i Aelodau
 3. Gwirfoddolwyr
- bod y lefelau sicrwydd canlynol wedi eu rhoi i'r darnau o waith yma, sef:
 1. Digonol
 2. Uchel
 3. Digonol.

Nodwyd:

- bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad o dan "Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio" bellach wedi'u cwblhau;
- anfodlonrwydd ar ddyfarnu lefel sicrwydd "Uchel" i "Gefnogaeth i Aelodau" gan mai dim ond 4 ymateb i'r holiadur a dderbyniwyd allan o 18;
- y gellid disgwyl y byddai mwy o sylw wedi ei roi i systemau cyfrifon a rheolaeth fewnol yn y cynllun am eleni, a hefyd nodi unrhyw newidiadau oedd wedi eu gwneud i adroddiadau cyfrifon yn ystod y flwyddyn, cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol;
- er bod y cynllun gwaith am 25/26 yn hawlio ei fod wedi ei seilio ar ddadansoddiad o risgiau, nad oedd sôn yn yr adroddiad am unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr, ac awgrymwyd y gellid plethu rhai o risgiau uchel Proffil Risg yr Awdurdod i'r adroddiad yma.

Nid aeth unrhyw argymhelliad gerbron y Pwyllgor er mwyn ail-edrych ar yr adroddiad a'r cynllun gwaith.

8. Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- am y prosiectau gwahanol a oedd yn cael eu hariannu gan grantiau allanol:
 - bod y prosiect, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy 2022-25, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi dod i ben, a bod adroddiad llawn ar y prosiect bellach wedi mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru; byddai adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad.

Nodwyd:

- bod y grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect Dŵr Gwylt Cymru wedi ei roi ar gyfer yr Afon Mawddach yn benodol, ond bod posibilrwydd y gellid rhoi peth arian i afonydd eraill, gan gynnwys y Dysynni;
- bod newidiadau wedi eu gwneud i gais diwygiedig yr Awdurdod i'r Gronfa Rhwydwaith Natur wedi methiant y cais cyntaf yn 2024;
- nad oedd y Cynllun Coedwigaeth Glaw yn dod i ben tan 2027, a bod trafodaethau eisoes ar droed i gyflwyno cais newydd am brosiect gwerth £10M (gyda chymdeithas arall yn arwain y tro yma, o bosib);

Cynigiwyd:

- y dylid ychwanegu at un o flaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer cynigion cyfalaf a refeniw 2025-26, sef i gynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais i gael mynediad i gefn gwlad;

Argymhellwyd – bod Aelodau'n

1. nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf;
2. nodi prosiectau gweithredol cyfredol a newydd;
3. ystyried a chymeradwyo'r ddau bennawd thematig ychwanegol a chadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynigion yn y dyfodol, gan ychwanegu'r newid a gynigiwyd fel bod blaenoriaeth 12 yn darllen:
 - a. *Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais gael mynediad i gefn gwlad ac elwa o'r dirwedd;*
4. nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau;
5. nodi cynnydd ar brosiectau byw.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2024-25 – Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- mai hwn oedd yr adroddiad terfynol ar y rhaglen waith gorfforaethol am y flwyddyn yma, ac fe fyddai ymatebion y cyfarfod yn cael eu hymgorffori i mewn i'r adroddiad blyneddol a fyddai'n dod o flaen yr Aelodau ym mis Medi.

Argymhellwyd: – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Gorfforaethol

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod y risgiau a oedd yn wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu'n dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel;
- bod y Proffil yn nodi bod 19 risg wedi eu canfod: roedd tri ohonynt wedi eu nodi'n risgiau Uchel, 14 yn risgiau Canolig, a dau'n risgiau Isel;
- nad oedd unrhyw newid yn lefelau'r risgiau ers y diweddariad diwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mawrth 2025. Roedd camgymeriad yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad am ei fod yn dweud fod risg 17, (Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o adolygiad barnwrol) wedi cynyddu, ond nid oedd wedi newid mewn gwirionedd.

Nodwyd:

- bod y Gofrestr Risg yn cael ei adolygu cyn pob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a chyn pob cyfarfod o'r Awdurdod; bod y Tîm Arweinyddiaeth hefyd, os yw'n ystyried bod risg newydd wedi codi, yn ychwanegu'r risg honno i'r Gofrestr Risg i'w thrafod yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, neu'r Pwyllgor Perfformiad, pa un bynnag fyddai nesaf;
- bod y golofn "Gweddill Risg" yn cofnodi'r lefel o risg yr hoffai'r Awdurdod ei gyrraedd yn hytrach na'r lefel y mae ar hyn o bryd;
- y dylid paratoi cynllun wrth gefn mesuradwy ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch petai'r cais ar gyfer arian o'r Gronfa Loteri Treftadaeth yn methu;
- bod y Prif Weithredwr wedi dechrau edrych ar y posibilrwydd o droi at Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (*Shared Prosperity Fund*, SPF) petai'r cais am arian tuag at ddatblygu Plas Tan y Bwlch gan y Gronfa Loteri Treftadaeth yn methu;
- y gallai Etholiad y Senedd fis Mai 2026 greu risgiau dilyniant (*continuity*) a dylid ychwanegu'r risgiau hynny at y proffil.

Argymhellwyd: – trafod cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

11. **Adroddiad Monitro Cwynion**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- bod yr Awdurdod wedi derbyn 16 o gŵynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25;
- y cadarnhawyd neu rhannol-gadarnhawyd 8 o'r cwynion a ymchwiliwyd iddynt.

Nodwyd:

- nad oedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi, ac mai'r nod oedd datrys unrhyw gŵyn neu broblem yn y fan a'r lle, os yn bosibl.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

12. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth am wariant yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol 2024/25 a'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd cyn dechrau'r flwyddyn;
- crynodeb o'r sefyllfa ariannol.

Nodwyd:

- y bu gorwariant o £26K ar gasglu sbwriel oherwydd prysurdeb eithriadol y meysydd parcio a thrin sbwriel yn anghyfrifol:
 - dylid ymchwilio i ffyrdd y mae parciau cenedlaethol eraill wedi delio gyda'r broblem, a
 - gwahoddwyd swyddogion i gyflwyno adroddiad i'r Aelodau i drafod ffyrdd o ymateb i'r broblem;
- bod yr Awdurdod wedi derbyn arian gan ffermydd gwynt mawr oherwydd eu heffaith dirweddol.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'n

1. cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf;
2. cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd;
3. nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol;
4. cymeradwyo'r llithriadau (£170,160) a'r ymrwymadau;
5. Cymeradwyo trosglwyddo tanwariant y flwyddyn ariannol 2024/25 i Gronfa Balansau Cyffredinol;
6. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

13. **Adroddiad Blynyddol ar Wir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- ei bod hi'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod;
- i weithgarwch yr Awdurdod aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol;
- na fu unrhyw fenthycia;
- nad oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

Nodwyd:

- bod yr Awdurdod yn gosod cyfeiriad i'r adran gyllid ar fuddsoddi'n flynyddol, ac na fyddai'r adran yn buddsoddi mewn sefydliadau a oedd yn arddel gwerthoedd anghydnaws â gwerthoedd creiddiol yr Awdurdod.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

14. **Datganiad Polisi Cyflog 2025/26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn absenoldeb y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- cyflogau'r Prif Swyddogion a chyflogau'r staff eraill.

Nodwyd:

- bod y ffigwr o roddwyd ar gyfer cyflogau cyfarwyddwyr am 2024/25 yn anghywir.

Cynigiwyd:

- bod yr ail argymhelliad gwreiddiol – sef “cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Bolisi Cyflogau ar gyfer 2023/24” – yn cael ei dynnu nôl, ac adroddiad pellach yn cynnwys y ffigyrau cywir yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod diweddarach.

Argymhellwyd: – Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu nôl ac adroddiad pellach yn cynnwys y ffigyrau cywir yn cael ei gyflwyno i gyfarfod diweddarach.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

15. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

Adroddwyd bod:

- pethau yn yr adran wedi sefydlogi yn 2024 wedi iddi fod heb bennaeth ymgysylltu yn ystod 2023, a bod:
 - Swyddog Cynnwys Digidol â chyfrifoldeb am y wefan wedi ei phenodi;
 - sylwedd yn y cynnwys a gyhoeddiad wedi cynyddu;
 - nifer dilynwyd digidol wedi codi dros 5%;
- cyfrif TikTok wedi ei ail-sefydlu a oedd wedi galluogi ymgysylltu gyda mwy o ddefnyddwyr;
- ymgynghoriadau ynghylch Erthygl 4 a'r Strategaeth Goed wedi bod yn llwyddiannus;
- ardaloedd llai adnabyddus o'r Parc wedi'u hyrwyddo;
- yr Awdurdod yn parhau i ddod yn gyntaf fel canlyniadau i ymholiadau ar y termau hynny sydd bwysicaf i'r Awdurdod (Wyddfa, Eryri ayyb) yn y peiriannau chwilio mwyaf poblogaidd (Google ayyb), a bod hyn yn wir yn y Gymraeg a'r Saesneg; ei bod yn parhau'n bwysig fod yr Awdurdod yn cynnal y safle yma yn y ddwy iaith er nad oedd yr Awdurdod yn arddel yr enwau Saesneg bellach;
- perthnasau a chydweithio gyda chymdeithasau lleol a chenedlaethol yn parhau'n gryf.

Nodwyd:

- dymuniad i weld mwy o berthynas rhwng y Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir a nodwyd yn yr adroddwyd â Phwynt 5.2 (Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu) y Rhaglen Waith Corfforaethol:
 - tra bod y mesuriadau presennol yn dangos maint yr ymgysylltu, byddai'n dda cael modd o fesur a oedd yr ymgysylltu hwnnw'n newid canfyddiad defnyddwyr o'r Parc;
 - bod rhai o'r Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir yn annelwig, a dylid

ceisio'u gwneud yn fwy mesuradwy;

- gellid tracio sentiment, sef sut mae pobl yn ymateb i bostiadau (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), i fesur llwyddiant;
- mewn ymateb i'r broblem o ddylanwadyr digidol yn creu potiau mêl wrth dynnu sylw at ardaloedd penodol o fewn y Parc a chreu problemau wrth i nifer fawr o ymwelwyr gyrraedd yn sgil hynny, y gellid
 - edrych i wneud rhywbeth tebyg i ddylanwadyr a chaiff ei wneud eisoes gyda busnesau lleol, sef hybu dylanwadyr i arwyddo i fod yn "ddylanwadyr cyfrifol", neu
 - ymchwilio i hybu'r brandiau a oedd yn hyrwyddo'r dylanwadyr addunedu eu hunain i fod yn gyfrifol a phasio'r adduned ymlaen i'r dylanwadyr;
- y crëwyd pedwar Parc Cenedlaethol cyntaf y DU ym 1951, ac y byddai'n 75 o flynyddoedd ers eu creu yn 2026; byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau yn y misoedd nesaf yn amlinellu syniadau ynglŷn â nodi a dathlu'r achlysur;
- angenrheidrwydd cael yr offer a'r hyfforddiant cywir i allu ymateb yn gadarn i gam-wybodaeth a gwybodaeth negyddol;

Argymhellwyd: – darllen a thrafod yr adroddiad ac atodiadau

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00



COFNODION
PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 26 TACHWEDD 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Bethan Hughes, Nia Murray, Gareth Hughes, Awel Gruffydd, Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Luned Fôn Jones (Archwilio Mewnol)
Sara Leahy (Archwilio Cymru)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Louise Hughes, Einir Wyn Williams, Ifor Glyn Lloyd, a Salamatu Fada.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Taflen Weithredu

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Argymhellwyd: –

- bod *Eitem 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru* (PacA 12.07.23) i barhau ar y daflen weithredu, ond byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno diweddariad ar yr eitem

fel adroddiad ar wahân wrth aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru;

- bod *Eitem 8. Arallgyfeirio Incwm* (PacA 29.11.23) i barhau ar y daflen weithredu, ond byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno diweddariad ar yr eitem fel adroddiad ar wahân wrth aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru;
- bod yr eitemau canlynol o bwyllgor PacA 09.07.25 i'w dileu o'r daflen weithredu am eu bod wedi eu cwblhau:
 1. Eitem 7. Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol
 2. Eitem 8. Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol
 3. Eitem 14. Datganiad Polisi Tâl 2025-26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2024-25
 4. Eitem 15. Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Penderfynwyd: — derbyn yr Argymhelliad

5. **Hybu Mynediad i Barc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad gan Archwilio Cymru**

Cyflwynwyd adroddiad gan Sara Leahy, Archwilio Cymru (AC).

Adroddwyd:

- bod deddfwriaeth yn gosod gofynion ar yr Awdurdod i hybu cyfleoedd i gymunedau i annog cydraddoldeb ac i annog ystod eang o bobl i ymweld â'r Parc;
- bod y briff prosiect gwreiddiol wedi ei gyhoeddi yn Hydref 2023, y gwaith maes ei wneud yn ystod Hydref 2024, yr adroddiad drafft ei anfon yn Ionawr 2025 a'r adroddiad terfynol yng Ngorffennaf. Ymddiheurwyd am yr amser oedd wedi bod ers dechrau'r gwaith ac esboniwyd eu bod wedi cael trafferthion staffio;
- bod AC wedi canfod "fod yr Awdurdod yn colli cyfleoedd i gynllunio'n strategol ar gyfer mynediad gwell i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol";
- yr argymhellion i wella a chryfhau'r gwaith roedd yr Awdurdod yn ei wneud i hybu mynediad, gan gynnwys:
 - cryfhau sylfaen tystiolaeth yr Awdurdod gyda'r nod o ddeall pwy oedd, a phwy nad oedd, yn dod i'r Parc;
 - mapio'r holl bartneriaid gallai weithio gyda'r Parc i hybu mynediad;
 - eglurdeb pellach am y gost o wireddu gweledigaeth yr Awdurdod;
 - monitro a gwerthuso a oedd y gwaith yma'n mynd i galon yr hyn yr oedd yr Awdurdod yn dymuno i'r prosiectau yma gyflawni.
- bod yr Awdurdod wedi derbyn pob un o'r argymhellion a rhoi gwybodaeth bellach am y camau gweithredu ac amseru'r camau hynny, a bod y wybodaeth honno i'w weld yn briodol ac yn dderbyniol gan AC.

Nodwyd:

- ei fod yn anodd iawn gwybod pwy oedd yn cael eu methu;
- bod Strategaeth Cydraddoldeb yr Awdurdod, *Cynllun Eryri* a'r gweithdy oedd i'w gynnal yn y flwyddyn newydd i gyd yn cyd-blethu â hybu mynediad, ac y byddai hybu mynediad yn cael y sylw haeddiannol wrth ddatblygu a gweithredu'r pethau yma.

Argymhellwyd: – ystyried a chymeradwyo'r ymateb drafft.

Penderfynwyd: — derbyn yr Argymhelliad.

6. Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- mai hwn oedd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024-25 ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod;

Nodwyd:

- ymhellach i'r polisi cam-drin domestig oedd wedi ei fabwysiadu awgrymwyd y gellid edrych i mewn i'r prosiect Rhuban Gwyn a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn merched yn y cartref;
- y byddai'r canlynol bellach yn cael eu nodi'n ogystal â'r ffigyrau presennol:
 - faint o swyddi a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn, a
 - faint o bobl a gafodd eu gwahodd i gyfweiliad;

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn dilyn cyflwyno Cynllun Archwilio blynyddol ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 9 Gorffennaf 2025;
- bod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i ail-ymweld, trafod a chytuno'r cynllun gwaith;
- bod dau beth yn benodol wedi eu hamlygu yn dilyn trafodaethau am Broffil Risg yr Awdurdod ymysg aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth, a chynigiwyd y risgiau isod i'w plethu i waith Archwilio Mewnol, sef:
 - Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod
 - Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch;
- bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg i'w newid i adlewyrchu unrhyw fater a ddeuai i'r golwg neu newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod;
- nad oedd unrhyw oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

Nodwyd:

- bod cael rhywun allanol i archwilio'r ochr ariannol o'r hyn a oedd yn digwydd ym Mhlas Tan y Bwlch i'w groesawu.

Argymhellwyd: – ystyried y Cynllun Archwilio Addasedig ar gyfer cyfnod cyfrifo 2025/26 a derbyn y cynllun.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. Iechyd a Diogelwch: Adroddiad Blynyddol 2024-25

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch.

Adroddwyd:

- mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o reolaeth iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Nodwyd:

- byddai'n fuddiol nodi rhagor o ddamweiniau a fu bron a digwydd;
- mewn ymateb i sylw fod un tabl yn yr adroddiad yn dangos i Blas Tan y Bwlch nodi 7 digwyddiad yn ystod y flwyddyn – sef yr un nifer ag allan yn y maes – a bod hyn yn annisgwyl, eglurwyd mai nodi digwyddiadau oedd y tabl, ac nid damweiniau na damweiniau a fu bron a digwydd, a'u bod yn cynnwys digwyddiadau fel larymau tân yn canu;
- mewn ymateb i sylw fod ffigyrau'r diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd materion iechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2022 a 2023, bod y ffigyrau wedi cynyddu'n gyffredinol ar draws gwlad yn dilyn cyfnod Covid, a hefyd bod pob digwyddiad yn cael mwy o sylw ac yn cael ei recordio'n fwy manwl;
- bod yr Awdurdod wedi lansio system "Pwls" oedd yn galluogi aelod o staff gofnodi mewn modd cwbl anhysbys sut roeddynt yn teimlo ar y pryd hwnnw;
- byddai modd cymharu'r ffigyrau blyneddol o'r flwyddyn nesaf.

Argymhellwyd:

1. nodi'r perfformiad cryf parhaus ym maes iechyd, diogelwch a lles;
2. cefnogi'r camau gwelliant canlynol
 - i. Datblygu fframwaith archwilio fewnol
 - ii. Gwella defnydd o systemau data absenoldeb
 - iii. Gweithredu canfyddiadau Arolwg yr Offeryn Dangosydd Straen, yn enwedig o ran llwyth gwaith a chyfathrebu
 - iv. Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a chefnogaeth lles staff.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2025 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod;
- bod y gwaith ar Amcan AC 1.5 [Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri] wedi ei ohirio oherwydd absenoldeb, a bod Amcan AC 1.10 [Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod sy'n weithredol ar gyfer 2026-203] wedi'i farcio'n goch gyda llithriad posibl oherwydd pwysau gwaith a'r bwriad i'w gyflawni mewn ffordd arall.

Nodwyd:

- y gellid nodi faint o oleuadau yn yr adroddiad oedd yn wyrdd, yn felyn ac yn goch, a thynnu sylw at unrhyw newidiadau ynddo, yn y blaenadroddiad.

Argymhellwyd: – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Gorfforaethol

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru ar osod Amcanion Llesiant (Cyhoeddwyd Medi 2025)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod Archwilio Cymru (AC) wedi cwblhau asesiad o'r graddau yr oedd yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant – ynghyd â sut y gellid gwella hyn yn y dyfodol;
- bod angen eu hadolygu, ond bod yr Awdurdod wedi penderfynu oedi adolygu'r Amcanion Llesiant er mwyn eu hintegreiddio gyda *Chynllun Eryri*;
- bod AC yn fodlon ar y cyfan fod yr Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymhwyso ei Amcanion Llesiant;
- bod AC wedi gwneud 2 argymhelliad:
 - cryfhau trefniadau ar gyfer asesu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn amcanion llesiant, a
 - sicrhau fod yr Awdurdod yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i sicrhau bod yr amcanion yn parhau i fod yn briodol;
- ei fod yn hyderus y byddai'r Awdurdod yn gallu cyrraedd gofynion yr argymhellion.

Argymhellwyd: – cymeradwyo'r ymateb yn Atodiad 2 fel ymateb ffurfiol yr Awdurdod i adroddiad ac argymhellion Archwilio Cymru

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

11. **Targedau Monitro Perfformiad Llywodraeth Cymru Ebrill – Medi 2025**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno fframwaith monitro perfformiad gwaith yr Awdurdod yn sgil eu Llythyr Grant Strategol a'i fod fel ffon mesur ar sut oedd cyrraedd gofynion y Llywodraeth yn y Llythyr;
- bod y Llywodraeth wedi ymgynghori gyda'r Awdurdod ar y fframwaith cyn ei fabwysiadu;
- bod y fframwaith yn cael ei gyflwyno'n flynyddol ac mai'r adroddiad canol y tymor oedd hwn;
- na chafwyd llawer o amser i baratoi'r adroddiad, ac mai naratif yn hytrach na ffigyrau oedd llawer ohono ar hyn o bryd ond byddai hyn yn newid wrth i'r data a'r ystadegau gynyddu.

Nodwyd:

- bod y ffigyrau mawn wedi gostwng oherwydd newidiadau yn y ffordd yr oeddynt yn cael eu mesur.

Argymhellwyd: –

1. cymeradwyo ymateb canol blwyddyn gychwynnol yr Awdurdod i dargedau rheoli perfformiad newydd Llywodraeth Cymru;
2. nodi y bydd asesiad manwl pellach yn dilyn ym mis Gorffennaf 2026.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

12. **Cyllid Grant Tair Blynedd Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) 2022-25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- mai rhaglen oedd hon yr oedd y Llywodraeth yn gweithredu ar y cyd gyda'r 8 Tirwedd Ddynodedig;
- ei fod yn grynodeb o'r hyn roedd yr Awdurdod wedi ei wneud yn ystod 2022-25 a throsolwg o'r gwariant;
- bod ffigwr anghywir wedi ei nodi yn y rhaglen, a bod Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd wedi darparu mwy nag **£11 miliwn** o grant cyfalaf i Dirweddau Dynodedig Cymru, yn hytrach na'r £1.1 miliwn a nodwyd.

Argymhellwyd: – nodi'r amrywiol brosiectau sydd wedi'u cwblhau o dan gyllid TCLIC rhwng 2022-25, a darparu unrhyw adborth os o gwbl

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

13. **Datganiad Polisi Cyflog 2024/25 ac Adroddiad Blynnyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- mai ailgyflwyniad oedd yr adroddiad hwn, gan i'r adroddiad a gyflwynwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau fis Gorffennaf gynnwys ffigyrau cyflogau anghywir;
- bod dyfarniad cyflog pellach wedi ei wneud ers mis Gorffennaf, ac a dalwyd ym mis Awst, ac y byddai'r ffigyrau hynny'n cael eu hadrodd yng nghyfarfod fis Gorffennaf nesaf.

Argymhellwyd:

1. cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/25;
2. cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol ar Bolisi Cyflogau ar gyfer 2023/24.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

14. **Adroddiad Blynnyddol y Canolfannau Croeso**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy.

Adroddwyd:

- bod canolfannau Beddgelert ac Aberdyfi wedi bod yn eithaf statig;
- bod canolfan Betws-y-coed wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ond bod trosiant wedi gostwng ychydig;
- mai canolfan Pen-y-pass a welodd y newid mwyaf a bod cynlluniau ar y gweill am y ganolfan ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhellwyd: – trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau y dylid eu cymryd wrth edrych ar 2024-2025.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55



COFNODION
PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 11 MAWRTH 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, John Pughe Roberts, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes a Dr Salamat Fada.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Taflen Weithredu

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Argymhellwyd: –

- bod *Eitem 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru* (PacA 12.07.23) yn cael ei thynnu o'r daflen weithredu, am fod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau;
- bod *Eitem 8. Arallgyfeirio Incwm* (PacA 29.11.23) yn cael ei thynnu o'r daflen

weithredu, am fod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau;

- bod *Eitem 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25* (PacA 09.07.25) yn parhau ar y Daflen am y tro; roedd y Pennaeth Eiddo'n bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater ond nid oedd dyddiad wedi ei gadarnhau hyd yma.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

5. Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- bod 50 o geisiadau wedi dod i law yn ystod y flwyddyn 2025: 28 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 22 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;
- bod, o'r ceisiadau hyn:
 - 17 cais yn ymwneud ag amrywiol fathau o wybodaeth oedd yn berthnasol i reolaeth datblygu a/neu bolisi cynllunio a materion cysylltiedig â hynny;
 - 11 cais yn ymwneud â gwybodaeth ynghylch contractau amrywiol yr Awdurdod ar gyfer offer a meddalwedd yn bennaf,
 - 4 cais yn ymwneud â gwybodaeth Adnoddau Dynol ynghylch niferoedd a chostau staff a hyfforddiant,
 - 2 wedi gofyn am gopi o ymatebion i'r ymgynghoriad, a
 - 2 gais yn ymwneud â gwybodaeth am daliadau cyflenwyr

Argymhellwyd: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

6. Cofrestr Risg yr Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod 19 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr: 1 wedi'i dosbarthu fel risg Uchel, 14 wedi'u dosbarthu fel risgiau Canolig a 4 wedi'u dosbarthu fel risg Isel;
- bod dau risg newydd ar y Gofrestr yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025, sef Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 a Sefydlu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru.;
- bod y Tim Arweinyddiaeth wedi ail-edrych ar y risgiau yn dilyn sylwadau a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025, a bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn lefelau llawer o'r risgiau;
- bod camgymeriad yn y gofrestr Gymraeg: roedd canlyniad gweddill risg rhif 3 (*Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor*) wedi ei gofnodi fel "Coch" ond â chylch ambr, ac mai "Ambr" a chylch ambr ddylai fod.

Argymhellwyd: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. Diweddariad ar Gyllideb 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno dair gwaith y flwyddyn ac mai hwn oedd y cyflwyniad terfynol cyn cau'r gyllideb a chyflwyno adroddiad Alldro yn yr haf;
- bod y gyllideb wedi ei gosod yn Chwefror 2025;
- bod:
 - Llywodraeth Cymru, yn Chwefror 2026, wedi dyrannu £1,003,300 ychwanegol mewn cyllid cyfalaf ar draws 29 o brosiectau,
 - £30,600 ychwanegol wedi'i dderbyn mewn cyllid refeniw i gefnogi pwysau capasiti,
 - cyllid ychwanegol o £635k hefyd wedi ei ddyrannu ddechrau Mawrth er mwyn cwrdd â'r diffyg o fewn y flwyddyn;
- nad oedd y ffigyrau yma wedi eu hadlewyrchu yn y tablau oherwydd i'r arian gael ei dderbyn ar ôl y cyfnod adroddir arno (sef hyd at 31 Ionawr 2026);
- bod camgymeriad yn 2.3 yn yr adroddiad: caed **tanwariannau** "bach mewn sawl gwasanaeth" oedd yn gywir, ac nid **gorwariannau**.

Argymhellwyd: – bod y Pwyllgor yn:

1. Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26
2. Cymeradwyo'r symudiad o £103,000 ar gyfer Terfynau Traddodiadol

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y trydydd (a'r pedwerydd) chwarter i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod;
- bod llithriant wedi bod mewn tair eitem, a thynnwyd sylw'r Aelodau atynt:
 - AC1.5 ac AC 1.6: Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri
 - AC1.10: Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030
 - CW 1.4 Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ein systemau technegol
- bod y mwyafrif llethol o'r amcanion yn wyrdd (yn mynd rhagddynt ac o fewn yr amserlen) a bod hyn yn adlewyrchu'n dda ar y swyddogion.

Nodwyd:

- bod y Fforwm Staff yn fodd i aelodau drafod polisïau, mynegi eu barn a chyflwyno syniadau er mwyn sicrhau nad oedd yr holl amcanion yn cael eu harosod oddi uchod.

Argymhellwyd: – bod y Pwyllgor yn trafod a nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. **Adroddiad Diweddaru ar Grantiau Arian Allanol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- nad oedd y blaenoriaethau ar gyfer y prosiectau wedi newid;
- bod Atodiad 2 yn dangos y dull cymeradwyo prosiectau oedd wedi ei fabwysiadu fel Awdurdod, ond ei fod yn cael ei adolygu'n fewnol ar y pryd, a byddai adroddiad pellach ar hynny'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau petai'n cael ei newid mewn unrhyw ffordd;
- bod y prosiect Carneddau wedi dod i ben ond dylid cydnabod pwysigrwydd gwaddol y prosiect, bod partneriaethau bellach yn cyd-weithio'n naturiol lle nad oedd y partneriaethau'n bodoli cyn cychwyn y prosiect;
- bod prosiect datblygu Plas Tan y Bwlch yn llyncu adnoddau ac yn hawlio llawer o waith, a byddai sesiwn ar y Plas yn cael ei gynnal ddiwedd yr wythnos yn Niwrnod Hyfforddi'r Aelodau i ddiweddaru'r Aelodau;
- na fyddai'r Awdurdod yn symud ymlaen gyda phrosiect Dŵr Gwylt Eryri a byddai'r arian, gwerth £200K, yn cael ei golli; roedd hyn am fod yr amser a roddwyd i'r prosiect yn rhy gyfyng, ac roedd sylwadau'n amlygu hyn wedi mynd yn ôl at Lywodraeth Cymru.

Nodwyd:

- dylid ceisio ariannu meithrinfa goed i gael tyfu coed a phlanhigion brodorol i adnewyddu gwrychoedd, gan ddechrau gyda'r Plas.

Argymhellwyd: – bod y Pwyllgor yn:

- 1 Nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf.
- 2 Adolygu a chytuno blaenoriaethau ar gyfer cynigion grant (Atodiad 1)
- 3 Nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau (Atodiad 2)

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn 2025: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

Adroddwyd:

- bod nifer Materion y Wasg yn llai yn 2025 nag yn 2024 am fod 2024 yn brysur gyda materion Plas Tan y Bwlch, penodi Prif Weithredwr newydd, a'r newid i ddefnyddio'r enwau Eryri a'r Wyddfa'n unig;
- bod ystadegau defnydd y wefan wedi codi;
- bu mwy o arbrofi ar y cyfryngau cymdeithasol yn 2025 gan ffocysu mwy ar ansawdd y cynnwys yn hytrach nag ar nifer yr eitemau a gyhoeddwyd;
- bod patrwm wedi datblygu, sef cynhyrchu ar themâu ymwelwyr rhwng Ebrill a Hydref, a rhinweddau eraill y Parc Cenedlaethol yn ystod misoedd y Gaeaf;
- bod cydweithio da wedi bod gyda phob tîm achub mynydd oedd yn gweithredu yn Eryri;
- bod y rhan fwyaf o'r gwaith ffilmio'n cael ei wneud yn fewnol ond, pan gaed arian grant, bod yr Awdurdod yn defnyddio 3 neu 4 cwmni proffesiynol arbenigol, yn dibynnu ar natur y prosiect;

- bod codi ystadegau sianel Youtube wedi bod yn nod yn 2025;
- ei fod yn fwriad gwneud 3 ffilm 10 munud o hyd yn ystod eleni: ar Gadair Idris, Llyn Tegid a Thaith Fer trwy'r Parc Cenedlaethol;
- bod 5 darn o waith oedd yn rhan o Strategaeth Ddigidol APCE 2026 yn cael eu cynhyrchu ar y cyd rhwng yr adran gyfathrebu ac adran Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod:
 - Strategaeth Gyfathrebu
 - Strategaeth TG
 - Cyfathrebu Mewnol
 - Polisi Deallusrwydd Artiffisial
 - Strategaeth Cyfryngau Digidol

Argymhellwyd: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:07